

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 475 • Mawrth 2017 • 50c

Cyngerdd Gŵyl Dewi

Brynhawn dydd Sul 5 Mawrth, roedd Neuadd Ogwen dan ei sang ar gyfer y cyngerdd Gŵyl Dewi. Cafwyd rhaglenni amrywiol gan yr ysgolion lleol yn cynnwys Ysgol Pen-y-bryn, Ysgol Llanllechid ac Ysgol Dyffryn Ogwen yn ogystal ag eitemau gan Adran Bro Dyffryn Ogwen. Cafwyd datganiadau gwych gan sawl côr, yn ogystal â deuawd, pedwarawd, parti llefaru ac unawd soddgrwth. Mae yna ddoniau lu yn Nyffryn Ogwen! Roedd hwn yn gyfle da i gael perfformio rhai o'r eitemau o flaen cynulleidfa cyn mynd ymlaen i gystadlu yn

Eisteddfod yr Urdd.

Yna, i goroni'r cyfan, cafwyd gwledd gan grŵp ifanc lleol, gweddol newydd, o'r enw Chwalfa. Hyfryd oedd gweld rhai o'r plant yn dawnsio'n egniol o flaen y llwyfan ac yn y cefn. Cawsom brynhawn i'w gofio, er gwaethaf y glaw trwm y tu allan a olygodd fod yr orymdaith wedi gorfod cael ei chanslo.

Diolch i bawb a fu'n brysur yn trefnu, yn hyfforddi ac yn cyfeilio ac i'r disgyblion am eu gwaith caled.

Arweinydd y prynhawn oedd yr amryddawn Mr Neville Hughes. Diolch iddo yntau hefyd.



Chwalfa yn cloi'r cyngerdd Gŵyl Dewi yn Neuadd Ogwen



Pwy yw'r gŵr bonheddig yma y tu allan i rif 10 Stryd Downing tybed? Yr ateb ar dudalen 20 dan newyddion Tregarth!

Perllan Gymunedol



Plannu'r Berllan Gymunedol: Judith Kaufmann, Gaynor Elis-Williams a Paul Rowlinson. Mwy o hanes Balchder Bro Ogwen ar dudalen 13.

Neuadd Ogwen **TALENT PESDA**

Sioe Dalent Pobl Ifanc mwyaf talentog Gwynedd

24 MAWRTH AM 7.30

Tocynnau: £5.00

Drwy wefan Neuadd Ogwen
neu ffoniwch **01248 208485**

Oes gen ti Dalent? Os wyt ti rhwng 3 a 18 oed
anfon e-bost i talentpesda@outlook.com
erbyn **17 Mawrth** (Mae siawns i ennill £75.00)

Panel Golygyddol

Derfel Roberts
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Swyddogion

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Fiona Cadwaladr Owen.

Y golygydd ym mis Ebrill fydd
Dewi Llewelyn Siôn,
35 – 37 Ffordd Carneddi,
Bethesda, LL57 3SE.
Ffôn: 07940 905181.
dewision@hotmail.co.uk

Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 5 Ebrill
os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 20 Ebrill**,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths,
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan y *Lolfa*

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Dyffryn Ogwen

Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
SPAR, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Bangor

Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon

Palas Print

Porthaethwy

Awen Menai

Rhiwlas

Garej Beran

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

**Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan**

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Dyddiadur y Dyffryn

Mawrth

- 18 Bore Coffi Plaid Lafur. Cefnfaes.
10.00 – 12.00
- 23 Cinio Grawys. Eglwys y Gelli
Tregarth. 12.00 – 1.30.
- 24 Talent Pesda. Neuadd Ogwen am
7.00.
- 25 Bore Coffi Cronfa Achub y Plant.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
- 27 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid.
2.30 – 4.00.
- 28 Cangen Plaid Cymru Dyffryn
Ogwen. Cefnfaes am 7.00.
- 30 Cinio Grawys. Eglwys y Gelli
Tregarth. 12.00 – 1.30.

Ebrill

- 01 Bore Coffi Eglwys Sant Cedol,
Pentir. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
- 03 Merched y Wawr Tregarth.
“Marathon Llundain”. Festri Shiloh
am 7.30.
- 06 Sefydliad y Merched Carneddi.
Gêm o Boccia. Cefnfaes am 7.00
- 08 Bore Coffi Eisteddfod Gadeiriol
Dyffryn Ogwen. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.
- 08 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 1.30.
- 10 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid.
2.30 – 4.00.
- 12 Clwb Llanllechid. Festri Carmel.
- 13 Cymdeithas Jerusalem. Y Festri am
7.00.
- 20 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes. 6.45.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn
swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Rhoddion i'r Llais

- £8.00 Don Hughes, Halifax
- £13.00 Gwyneth Morris, Gwaen Gwail, Gerlan
- £10.00 Mr G. Lake, er cof am Mrs Elsie Lake
- £4.50 Mrs Shirley Pritchard, Pant Glas, Bethesda
- £20.00 Cofion annwyl am y ddiweddar Mrs Blodwen Gibbs, Hen Aelwyd, ar achlysur ei phen-blwydd, 18 Mawrth, oddi wrth Junior a Blodwen.

Diolch yn fawr

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mawrth

- £30.00 (112) Rhian Jones, Yr Ardd Fawr, Gerlan
- £20.00 (167) Alan Williams, Gaerwen.
- £10.00 (105) Gwen Ellis, Pant y Gwair Uchaf, Pont y Pandy.
- £5.00 (121) Beryl Williams, Groeslon, Allt Pen y Bryn, Bethesda.

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Llongyfarchiadau

Hoffem longyfarch Elgan Griffiths, Aberystwyth, cysodwr Llais Ogwan, ar ddod yn dad unwaith eto. Mae Cadog Rhun Gruffudd a'i fam yn dod ymlaen yn dda! Ein dymuniadau gorau i chwi fel teulu.



Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

19 Mawrth: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
26 Mawrth: Oedfa yng ngofal Meleri.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Pencampwriaeth Cneifio'r Byd – Seland Newydd 2017

(Gan Elfed Jackson, Braich Tŷ Du)
Yn Sioe Frenhinol Cymru Llanelwedd, mis Gorffennaf y llynedd, cefais wybod fy mod am gael cynrychioli Cymru am y nawfed gwaith yng nghystadleuaeth Cneifio'r Byd yn Invercargill, Seland Newydd. Cneifio gyda gwellaif fyddai i, ac ym mhob tîm mae 'na ddau yn cneifio gyda pheiriant, dau yn cneifio gyda gwellaif a dau yn lapio gwlân.

Mi es allan ddechrau Ionawr, fflio i Auckland yn y Gogledd a thrafeilio ychydig cyn mynd i aros hefo cyfaill imi, Wil Davies, sydd yn ffermio ger Rotorua. Roedd Wil wedi trefnu digon o waith cneifio ac 'roedd hyn o gymorth mawr i mi gael ymarfer gan nad oeddwn wedi cneifio ers diwedd yr Haf - dim ond ambell ddafad ddaeth i lawr yn hwyr o'r mynydd ddiwedd mis Hydref. Wedi ffarwelio â Wil, trafeilio lawr trwy Ynys y Gogledd am Wellington cyn croesi ar y cwch i Picton yn Ynys y De. Yn Fairlie, Canterbury, mae Tony Dobbs yn byw, aelod o dîm cneifio Seland Newydd, ac 'roeddwn wedi cael gwahoddiad i aros a gweithio hefo fo am wythnos cyn y gystadleuaeth. Roedd y lôn o Picton i Kaikoura yn dal ar gau wedi effaith y ddaeargryn mis Tachwedd, felly roedd mwy nag arfer o waith trafeilio, ond roedd y golygfeydd yn anfarwol ac yn werth pob awr!

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant, Bethesda ☎ 600689

Cofion

Anfonwn ein cofion at Mrs Norma Roberts, 59 Braichmelyn, sydd ar hyn o bryd yn wael gartref. Cofiw'n am ei gŵr Eric a'r teulu i gyd sy'n gofalu amdani.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore dydd Iau rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

Ddechrau Chwefror roedd rhaid mynd draw am Invercargill ym mhen isa Ynys y De. Roedd yna gystadlu brwd iawn rhwng 32 o wledydd o amgylch y byd, ac yng nghystadleuaeth y gwelleifiau, De Affrica ddaeth i'r brig unwaith eto, gyda Seland Newydd yn ail a ninnau'n chweched.

Rwyf yn teimlo'n lwcus iawn, ac mae'n fraint cael cynrychioli Cymru. Hoffwn ddiolch am y gefnogaeth, y dymuniadau da a'r cyfarchion gan bawb.

Ymhen dwy flynedd bydd Pencampwriaeth y Byd yn Ffrainc.....

Dwi am drio fy ngora' i gael bod yn y tîm am y 10fed gwaith, wedyn ella nai ymddeol!



BYSUS D. J. Owens
RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÏ.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOC: DERFEL OWENS

J. TEMPLE MORRIS A'I FAF

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Val Thomas, 2 Tan y Garth, a fu’n dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed ar 14 Chwefror. Dymuna Val ddiolch o galon i’r teulu a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig. Diolch yn fawr i bawb.

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau
Mawrth 19: Miss Nerys Jackson
Mawrth 26: Ein Gweinidog
Ebrill 2: Ein Gweinidog (Cymun)
Ebrill 9: Canon Idris Tomos
Ebrill 16 (Pasg): Parchg Dewi T Thomas (2.00 yp)
Oedfaon am 5 o’r gloch oni nodir yn wahanol.

Ysgol Sul am 10.30yb
Clwb Dwylo Prysor bob nos Wener am 6.30yb
Te Bach yn y festri, p’nawn Llun, 27 Mawrth ac 10 Ebrill (2.30 hyd at 4.00)
Croeso cynnes i bawb.

Yr Ysgol Sul / Clwb Dwylo Prysor

Fore Sul, 26 Chwefror, cawsom wasanaeth i ddathlu Gŵyl Dewi. ‘Roedd y plant a’r bobol ifanc yn cymryd rhan gan ddarllen



Dyma rai o’r plant a oedd yn cymryd rhan.



Rhai o Glwb Dwylo Prysor wedi gosod blodau i’w rhoi o gwmpas y Capel.

o’r Beibl, darllen cerddi a chanu. ‘Roeddent wedi dysgu eu gwaith yn ardderchog ac yn canu’n hyfryd. Diolch yn fawr iawn iddyn nhw i gyd. Diolch i’r gynulleidfa hefyd am ganu’r emynau mor hwyliog a brwdfrydig. Cawsom baned a chacan yn y festri ar ddiwedd y gwasanaeth. Diolch i’r merched a roddodd y bwyd a helpu yn y gegin ac wrth y byrddau.

Clwb Llanllechid

Cynhaliwyd y Clwb ar bnawn Mercher 15 Chwefror yn festri Capel Carmel. Croesawodd y Llywydd pawb i’r cyfarfod. Danfonwyd ein cofion at Gwenno sydd dal yn yr ysbyty.
Cawsom bnawn difyr iawn yng nghwmni Mrs Gwyneth John, cyn-weithiwr cymdeithasol yn ysbyty Dinbych. Cawsom hanes yr ysbyty o amser ei hagoriad yn 1868 i’r presennol.
Margaret Rees Williams oedd yn gyfrifol am y te. Rhoddwyd y raffl gan Myfanwy a Glenys enillodd. Bydd y cyfarfod nesaf bnawn Mercher 15 Mawrth.

Storm Doris

Cafwyd ychydig o drafferth gyda gwyntoedd storm Doris, colli llechi, biniau a blychau’n cael eu chwythu drosodd ond dim byd rhy ddifrifol. Hefyd mae rhai mannau wedi dioddef llifogydd oherwydd y glaw cyson ond y maent wedi ffonio Cyngor Gwynedd ar 01766 771000 i geisio cael sylw i ddatrys y problemau.
Syrthiodd rhan o’r mur sydd rhwng Capel Carmel a maes parcio’r Hen Ysgol ger sgwâr Rachub i mewn i’r maes parcio. Mae trafodaethau rhwng ymddiriedolwyr y capel a Chymdeithas Tai Gogledd Cymru wedi dechrau.

Dryswch y post!

Cafodd un o’r trigolion gerdyn Nadolig ar ddechrau mis Chwefror – y cod post bron yn gywir ond ei hen gyfeiriad ym Methesda ar yr amlen! A bu digwyddiadau tebyg yn yr ardal.

Gwisg o bob math!

Braf iawn oedd gweld y plant wedi gwisgo’n grand yn eu dillad Cymreig ar ddydd Gŵyl Dewi eto eleni! Roedd hetiau Cymreig a chrysau cochion yn frith yma yn Rachub! Da iawn bawb am fynd i’r ymdrech i ddathlu dydd ein nawddsant.
Roedd gwisgo i fyny i fod eto’r diwrnod canlynol ar gyfer diwrnod y llyfr! Roedd pethau digon rhyfedd i’w gweld ar y stryd yma’r diwrnod hwnnw - yn dylwyth teg, yn nyrsys, ambell i anghenfil ac un eliffant! Er cymaint y strach o ffeindio gwisg - mae’r plant i gyd yn werth eu gweld yn y diwedd!!

Eisteddfod

Pob lwc i bawb o’r ardal sy’n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd y mis yma! Gwnewch eich gorau glas!

Clwb Hanes Rachub, Llanllechid

Ar noson wyntog a gwlyb daeth criw da ynghyd i fwynhau taith gerdded o amgylch ardal Rachub, Coedmor a Hendyrpeg. Ond y newyddion da ydoedd nad oedd rhaid i neb fentro allan o festri Carmel i fwynhau’r daith hanesyddol hon. Roedd y gwaith caled wedi ei wneud ar ein rhan gan Arwyn Oliver ac Owen Jones. Rhoddwyd yr holl wybodaeth ynghyd ar ddisg gan Now ac ef oedd yn gofalu am y ‘Magic Lantern.’ Arwyn gyda’i lais pwylllog, clir fu’n ein tywys ar y daith. Cychwynnwyd y tu allan i’r Royal Oak cyn mynd i fyny am y Foel i weld lluniau o olion chwareli bychain a fu’n rhan bwysig o hanes y diwydiant yn Nyffryn Ogwen. Rhoddodd Arwyn flas i ni ar sut oedd bywyd yn ystod y streic gyda hanesion a helyntion di-ri yn y pentref. Aethpwyd wedyn am Ffordd Coedmor a chael hanes hen Blas Coetmor a hanes William John Parry, ‘The Quarrymans’ Champion’, cymeriad a fu’n flaengar yn y diwydiant ac yn aelod o nifer o bwyllgorau lleol a chenedlaethol. Yna i Fynwent yr eglwys a chael hanes y cysylltiad rhwng codi’r eglwys sydd ar y safle â’r mynydd Everest. Codwyd y capel er cof am Donald Robertson a oedd yn un o brif ddringwyr Prydain cyn iddo gael ei ladd ar y mynyddoedd. Roedd nifer o’i gyfeillion yn ddringwyr adnabyddus a rhai yn rhan o dîm a gynlluniodd dringo Everest am y tro cyntaf. Yna croesi’r afon a chael ein tywys, drwy gyfrwng ffilm, ar drên bach y chwarel wrth iddo fynd drwy Hendyrpeg tua canol y chwedegau. Noson ddiddorol a chartrefol. Barn llawer a oedd y buasent yn hoffi taith o’r fath unwaith eto yn y dyfodol.

Ysbyty

Anfonwn ein cofion at nifer o drigolion sydd wedi derbyn triniaethau mewn gwahanol ysbytai dros yr wythnosau diwethaf. Yn eu plith mae Susan Murphy, Rhen Ysgol, Ann Hughes, Tŷ Mwyn, Edith Roberts, Foel Ogwen ac Elfed Evans, Hen Barc.

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Nos Fercher, Mawrth 29
am 7 o’r gloch yn Festri Capel Carmel
Bydd **Mr Dafydd Fôn Williams**
yn sgwrsio am
‘HEN ENWAU COLL’
CROESO CYNNES!

Cydymdeimlo

Cofwn am Adrian Williams, 5 Bron Bethel, tad annwyl Stephen a Phillip, a bydd ei deulu a'i ffrindiau yn gweld colled ar ei ôl.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Helen a Ronald Evans a'r teulu, Yr Ynys. Bu farw mam Helen, Mrs Eleanor Buckland, Nyth Wyth, Ffordd Glynne, Bangor yn ddiweddar a hithau'n 86 mlwydd oed.

Bu farw Dafydd McCarter, 1 Ffordd Coedmor, annwyl briod Carys a thad hoff a ffrind gorau Dylan, taid gofalus Sean a hen daid Mia fach, colled drist i'w holl deulu a ffrindiau.

A Marilyn Parry 5, Yr Hen Ysgol, gwraig gariadus Ron, a mam arbennig Wendy, Alison, Dafydd ac Yvonne, nain annwyl Lowri, Aaron, Shannon, Jordan, Llion, Sion, Ffion, Arwen ac Elin Mair, hen nain hoffus Lexii Mai, Isabel May, Owain Ronald ac Ella Marilyn, chwaer Annwen a Glyn a ffrind ffyddlon i Linda.

Nain a Thaid

Llongyfarchiadau i Brian a Gwenda Jones, Bron Arfon ar ddod yn nain a thaid i Guto Ifan, mab Huw Geraint a Catrin ym Mhenisarwaen.

Cylch Meithrin Llanllechid

Gŵyl Dewi

Dyma rai o blant bach Cylch Meithrin



Llanllechid cyn iddyn nhw fynd i ganu o flaen eu rhieni ar y llwyfan yn Ysgol Llanllechid yn ystod Dydd Gŵyl Dewi.

Toiledau Newydd

Diolch yn fawr i gwmni tacsï A1 am brynu toiledau newydd i'r Cylch Meithrin. Diolch o galon i chi A1 Tacsis!



Cyngor Bethesda a Chyngor Llanllechid Diolch am y rhodd a dderbyniwyd yn ddiweddar gan Gyngor Bethesda a Chyngor Llanllechid. Gwerthfawrogi yn fawr gan y Cylch.

Newyddion

Cofiwch anfon newyddion y cylch atom ni i'r cyfeiriad uchod. Os nad ydym yn cael gwybod gennych, ni fedrwn ei gyhoeddi.

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau rhesymol

Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS

PEN Y CEUNANT ISAF

Y Bwthyn Té

www.snowdoncafe.com

Llwybr Yr Wyddfa

Llanberis

LL55 4UW

01286 872 606

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig

Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

Llais Ogwan

I hysbysebu yn Llais Ogwan,

Neville Hughes 600853

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda

Gwynedd LL57 3ST

Ffôn: 01248 602480

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr

Ysglodion pren i'r ardd

Ffensio a thorri coed

Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

Copa

Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.

Cynghori, gosod a thorri wigiau

Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen, Bryn Meurig
Bach, Coed y Parc, Bethesda, LL57 4YW
☎ 601592

Joe Hughes, Awel y Nant,Ffordd
Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

Plas Ogwen

Dymuna Rheolwr a staff Plas Ogwen ddiolch ar ran trigolion y cartref i deulu a ffrindiau a fu’n ymweld â’r cartref dros Wyl y Nadolig a’r flwyddyn newydd. Bu’r trigolion yn mwynhau gweithgareddau amrywiol a bu artistiaid gwych acw’n diddanu. Daeth Sioned o’r Wyddgrug, Mark Whitby a Chôr y Penrhyn draw i gynnal cyngerdd, a bu’r trigolion yn ymuno yn y canu. Cafwyd Cymun Nadolig gan y Ficer cyn yr Wyl, ac mae’r trigolion yn ddiolchgar iawn am y gwasanaeth yma sy’n cael ei gynnal yn rheolaidd.

Mae’r trigolion yn ddiolchgar iawn i bobol yr ardal sy’n dod i’r cartref i ymweld â nhw, a phob amser yn falch iawn o’u gweld. Diolch yn fawr i bawb.

Eglwys Crist Glanogwen
Mis Ebrill

2 Ebrill 11yb : Sul y Dioddefaint - Cymun Bendigaid
9 Ebrill 11yb : Sul y Blodau - Cymun Bendigaid
14 Ebrill 2 y p’nawn : Dydd Gwener y Groglith, Wrth y Groes - gwasanaeth defosiynol
16 Ebrill: SUL Y PASG: Rhwng 5 a 6 y bore: Gwasanaeth y Wawr - Cymun Bendigaid i fyny’r Nant yn yr awyr agored. Manylion i ddilyn.
11yb: Cymun y Pasg yn yr Eglwys
23 Ebrill : 11yb : Cymun Bendigaid
30 Ebrill : 11yb : Cymun Bendigaid

Hefyd, bob bore dydd Mercher am 10.30, Cymun a sgwrs a phanad wedyn.

Dymunwn Basg dedwydd i bawb a gwahoddwn chi yn gynnes iawn i ymuno â ni yn ystod yr amser arbennig hwn.

Ysbyty

Cofion cynnes iawn a gwellhad buan at y rhai fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, yn eu plith:- Mrs Jackie Jones, Iscoed a Mrs Doris Jones, Maes Coetmor.

Gair o Gydyndeimlad

Bu sawl teulu mewn profedigaeth yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion a’n cydymdeimlad atynt i gyd:
Mr a Mrs John Cooney a’r teulu, Glanffrydlas. Collodd Enid ei chwaer, Eryl, yn sydyn yn ystod mis Chwefror.

Teulu Mrs Marilyn Parry; Margaret a’r teulu, Maes y Garnedd a Lynda a’r teulu, Maes y Garnedd.
Mr a Mrs Alan Puw, a’r teulu, Cefn y Bryn. Collodd Alwena ei brawd Gwilym (Rhuddlan).
Mr a Mrs Gwynfor Williams a’r teulu, Ffordd Ffrydlas.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Morgan Ellis Owen, 9 Ffordd Pant, fydd yn dathlu ei benblwydd yn 18 oed ar 30 Mawrth.

Diolch

Dymuna Alwenna Puw a’r teulu ddiolch am yr holl gefnogaeth a dderbyniwyd ar achlysur marwolaeth ei brawd, Gwilym Hefin (Rhuddlan). Diolch am yr holl ymweliadau, galwadau ffôn, cardiau a rhoddion tuag at gronfa Myasthenia Gravis.

Profedigaeth

Trist yw cofnodi profedigaeth bellach i deulu o’r ardal. Ychydig fisoedd yn unig wedi colli ei brawd Rob ym Mhorthmadog, bu farw Edith Ceinwen Wilson yn Barnstaple, Dyfnaint, gwraig Don a mam Donald. Mae nifer o’r ardal yn ei chofio fel Ceinwen Thomas a fagwyd ym Maes Coetmor, ac yn chwaer i’r diweddar Robert Henry a Cyril, a hefyd i Mrs Doreen Jones, Maes Coetmor, a Mr Ron Thomas, Erw Las. Cydymdeimlwn yn fawr a’r teulu oll.

Marw

Mr David McCarter
Ar fore Sul, 26 Chwefror, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr David McCarter, Clydfan, Ffordd Coedmor, yn 75 mlwydd oed. Priod annwyl Mrs Carys McCarter, tad annwyl i Dylan, taid i Sean a hen daid i Mia. Roedd yn âwr tawel, yn hoff iawn o chwaraeon ac yn cerdded bron bob dydd gyda’i ffrind, Peter.

Cynhaliwyd ei angladd fore Sadwrn, 4 Mawrth, yn Amlogsgfa Bangor gyda’r Parchedig Geraint Roberts yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

Mr John Owen Roberts

Ar 25 Chwefror, yn dawel yn yr ysbyty, bu farw Mr John Owen Roberts, 10 Allt Pen y Bryn, yn 92 mlwydd oed. Priod annwyl y ddiweddar Mrs. Marjorie Roberts, tad a thad-yng-nghyfraith Wendy a John, Garneddwen, a Michael a Mandy. Taid hoffus ac arbennig i Paul a Lynsey, Sasha a Phil, Mark a Delyth ac Adrian ac Aimee. Hen daid i Elin, Haf, Ffion Medi Lois, Arwyn a Macsen, a brawd annwyl a charedig i Mrs Edith Hughes, Tregarth, a’r

ddiweddar Mrs Mair Morris, Tregarth.

‘Roedd yn âwr tawel a pharchus oedd yn barod ei sgwrs â phawb. Bu’n aelod ffyddlon ac yn flaenor yng Nghapel Shiloh, Tregarth, ac yn bregethwr lleyg a wasanaethodd lawer iawn o eglwysi dros y blynyddoedd. Cynhaliwyd ei angladd yn Shiloh ac Amlogsgfa Bangor ddydd Mawrth, 7 Mawrth.

Mrs Mary Elizabeth Scott

Yng Nghartref Gwynfa Lodge, Bontnewydd, ar 28 Chwefror, yn 95 mlwydd oed, bu farw Mrs Mary Elizabeth Scott, 31 Glan Ogwen gynt. Priod y diweddar Mr Derek Scott, mam a mam-yng-nghyfraith annwyl iawn i Elizabeth a Richard, a Janette a Nigel. Nain annwyl Dylan, Cheryl, Gareth, Adam a Simon, a hen nain hoffus i Elin Mair, Iwan, Lowri, Gethin, Non, Seren a Celyn Mair.

‘Roedd yn aelod selog o Gapel Jerusalem hyd nes i’w hiechyd dorri. Yng Nghapel Jerusalem y cynhaliwyd ei hangladd ar fore Mercher, 8 Mawrth, ac yna ym Mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Geraint Roberts.

Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu yn eich profedigaeth.

Gorffwysfan

Cynhaliwyd cyfarfod o’r pwyllgor fore Llun, 20 Chwefror, gyda Mr Elfed Bullock yn y gadair.

Yn bresennol : Vernon Owen, Joe Evans, Gilbert Bowen, Dennis Dart, Edric Jones, Owen J. Evans, Rhiannon Efans, Dilwyn Owen, Selwyn Owen, Dafydd Pritchard, Valmai Davies a Joe Hughes.

Ymddiheuriadau : Ann Fôn Williams a Christine Davies.

Croeso : Gan y cadeirydd, ac fe ddymunodd wellhad buan a chofion at aelodau oedd yn sâl sef :- Mrs Christine Jones, Hen Ysgol, Mrs Glenys Lloyd Jones a Mrs Joan Griffiths, Glan Ffrydlas.

Anfonwyd cofion at deuluoedd tri aelod a gollwyd yn ystod 2016 sef :- Mrs Nancy Williams (2.4.2016), Mr Jim Amos (12.04.2016) a Mrs Alice Jones (27.05.2016).

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 22 Chwefror 2016.

Adroddiad y Trysorydd : Diolchodd y cadeirydd i’r trysorydd am adroddiad ariannol boddhaol, ac am ei waith.

Gwibdeithiau
Caer : Dydd Mercher, 26 Ebrill.
Gwibdaith Ddirgel : Dydd Iau, 8 Mehefin.
Gerddi Trenthan : Dydd Iau, 13 Gorffennaf.
Bala, Berwyn, Llanfair Caereinion (Trên Bach): Dydd Mercher, 13 Medi.
Warrington: Dydd Mawrth, 21 Tachwedd.
Gofynnir am flaendal o £2.00 gan yr aelodau ar gyfer pob gwibdaith, a’r tâl llawn

i'w wneud wythnos cyn y wibdaith. (Ni fydd y trysorydd yn derbyn arian ar ddiwrnod y wibdaith.)

Penderfynwyd bod pob gwibdaith i gychwyn o safle ger Capel Jerusalem.

Digwyddiadau

Bore Coffi i'w gynnal ar Sadwrn, 20 Mai, yng Nghanolfan Cefnfaes o 10.00 – 12.00. Bwriad hefyd, i gynnal Bore Coffi arall cyn diwedd y flwyddyn.

Cinio Nadolig 2017: I'w drafod eto. Roedd yr aelodau wedi eu plesio'n fawr gyda chinio Nadolig Coed y Brenin y llynedd.

Ethol Swyddogion: Ailetholwyd pawb am flwyddyn arall, a diolchwyd iddynt am eu gwaith gan Rhiannon a Dilwyn.

Diolchwyd i bawb am eu presenoldeb yn y cyfarfod gan Mr Elfed Bullock.

Yr Eglwys Unedig

Daliwn i gael oedfaon bendithiol iawn gyda chynulleidfia deilwng – er gwaethaf y tywydd garw.

Cafwyd Cyfarfod Gweddi o dan ofal Gwenno – gwasanaeth dechreuol a seiat ar ôl hynny. Cymerwyd rhan gan Jean, Elna a Minnie gydag eraill yn cyfrannu. Diolch i bawb am eu cyfraniad. Mae'r Ysgol Sul yn dal i gael aelodau newydd – a chroesawn hwy'n gynnes atom. Mae'r Clwb Nos Fawrth yn dal ati'n ardderchog. Diolch amdanynt. Cydymdeimlwn ag Alwenna ac Alan Puw yn eu profedigaeth o golli brawd Alwenna yn Rhuddlan, sef Gwilym. Meddyliwn am y teulu i gyd.

Braf yw gweld Jennie Jones wedi dod yn ôl atom, ar ôl absenoldeb, croesawn hi'n gynnes. Cafwyd pwyllgor i drafod Diwrnod Gweddi Chwirydd y Byd dan ofal Ceri.

Y Gymdeithas

Croesawyd pawb gan Joe ein llywydd - braf oedd gweld ei fod yntau'n well ar ôl yr anwyd trwm. Croesawyd Mr Gareth Roberts, sy'n gweithio ym Menter Fachwen, atom. Cafwyd noson ddiddorol ac ardderchog ganddo. Dangoswyd map o'r ffordd Rufeinig o Gaernarfon i Gaer - a llawer o rai eraill gyda hanes diddorol

iddynt. Diolchwyd iddo gan Elfed, ac i ferched y baned, Doris, Bessie a Rita.

Mae'r blaenoriaid yn cyfarfod yn fisol i drafod popeth yn ymwneud â'r Eglwys.

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n methu â bod efo ni yn yr oedfaon.

Cyhoeddiadau i ddod

2 Ebrill – Y Parchedig Mererid Mair Williams

2 Ebrill – Oedfaon Sul y Blodau – yr Ysgol Sul 10 yb

16 Ebrill Sul y Pasg. Canon Idris Morris 5yp

25 Ebrill Y Parchedig Pryderi Ll Jones 10yb

30 Ebrill Y Parchedig Ddr Huw John

Hughes 5yp

Croeso i bawb i'r oedfaon ac i'r baned ar foreau Iau ac ar ôl yr oedfa foreol.

Cofio William Williams Pantycelyn

Cafwyd oedfa goffau dan ofal Alwenna.

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Darllenwyd a chanwyd ei emynau. Cafwyd hanes ei fywyd gan Elina, gweddi gan Ceri ac unawd gan Karen a phedwarawd Rhos y Nant. Cyfeiliwyd gan Menai – oedfa fendithiol iawn a phawb yn canmol. Diolch i bawb am eu cyfraniad.

Un Brwd Dros Chwaraeon Bro

Teyrnged i'r diweddar Dafydd McCarter, Bethesda

Gyda braw y derbyniwyd y newyddion trist am farwolaeth Dafydd McCarter yn 75 mlwydd oed a hynny wedi gwaeledd byr. Rhyw dair wythnos cyn ei farwolaeth y cefais ei gwmni a hynny ar Gae Dolddafydd a thîm rygbi Bethesda yn wynebu'r Wyddgrug. Yno soniodd ei fod yn edrych ymlaen at y tymor rhyngwladol, lle bu am dymhorau'n trefnu teithiau i hogiau lleol fynychu'r gemau nid yn unig yng Nghaerdydd, ond ym Mharis, Llundain, Caeredin, Rhufain a Dulyn. Roedd y cynlluniau'n eu lle ar gyfer teithiau'r tymor yma. Bu'n ysgrifennydd y Clwb lleol am dymhorau. Cafodd brofiad o chwarae criced i Fethesda lle'r oedd ei gyflymder yn fantais fawr i'r tîm. Serch hynny, pêl-droed oedd ei gêm ef pan oedd yn ifancach ac roedd yn asgellwr chwith chwim. Daliai'n driw wrth gefnogi Lerpwl.

Yn enedigol o Ffordd Bangor, roedd wedi byw yn Ffordd Coedmor ers hanner canrif. Graddiodd ym Mhrifysgol

Bangor cyn derbyn swydd dysgu yn y Drenewydd. Symudodd ef a Carys yn ôl i'r ardal i weithio ym 1966. Bu'n dysgu yn y *Tech* ym Mangor ac yna yn Ysgol y Friars yn ddiweddarach. Cyn mynd i'r coleg, cafodd gyfnod ar dreial gyda Manchester United ond ei benderfyniad oedd mynd i'r coleg. Rêl Dafydd Mc - “doeddwn i ddim yn siŵr os oeddwn yn ddigon da.” Chwaraeodd bêl-droed i dimau'r Brifysgol, Bethesda, Caernarfon a Chaersws cyn gwneud ei gartref am un ar ddeg o dymhorau ar Y Traeth ym Mhorthmadog.

Yn ystod y tymhorau yma enillodd ddeunaw o gapiau i dîm Amatur Cymru a thîm Gogledd Cymru gan deithio mor bell â Gwlad yr Iâ, Gogledd Iwerddon, Yr Alban, Lloegr ac ar hyd a lled Cymru i chwarae'r gemau. Yn ei gêm olaf dros Gymru, sgoriodd unig gôl y gêm wrth i Gymru drechu Lloegr ym Mhorthmadog.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Carys, Dylan a'r teulu oll yn eu colled a'u profedigaeth.

Dilwyn Pritchard

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Chwefror aeth rhai o aelodau'r gangen i gyfarfod deufisol o Bwyllgor Gwaith Plaid Lafur Arfon ym Mangor i drafod materion busnes yr etholaeth e.e. derbyn adroddiadau gan swyddogion a'r canghennau,

gan baratoi ar gyfer cyfarfod deufisol pob aelod.

Yna, yng nghanol y mis, aeth y cynrychiolwyr i gyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru yn Y Rhyl, yn bennaf i dderbyn adroddiad gan y trefnydd rhanbarthol newydd am yr etholiadau

sirol ar ddechrau mis Mai ac adroddiad gan Bwyllgor Gwaith Plaid Lafur Cymru. Wedyn, cafwyd cyfle i fynegi barn ar nifer o bynciau am Ewrop, Prydain a Chymru. Ar ddiwedd y mis aeth nifer i Fangor i gyfarfod mewn ystafell efo Kim Howells, cyn-

weinidog Llafur ym Mhrydain a fu'n cynrychioli etholaeth Pontypridd.

Gydol y mis bu'r tîm yn parhau i ganfasio etholwyr ar y ffôn mewn rhai o wardiau Arfon lle bydd ymgeisydd Llafur yn sefyll yn etholiadau Cyngor Gwynedd.

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan ☎ 601583

Profedigaethau

Yr ydym wedi colli sawl cymeriad o'r ardal yn y mis diwethaf, a'n gorchwyl trist yw estyn ein cydymdeimlad i'w teuluoedd i gyd

Newyddion trist iawn oedd clywed am farwolaeth un o hen gymeriadau'r ardal, y diweddar Griff Williams, Gwernydd. Roedd Griff yn gymeriad hoffus iawn, ac yn cael boddhad mawr o gael sgwrs gyda hwn a'r llall oedd yn mynd heibio ei gartref. Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â'i blant, Geraint, Gerallt, Arthur, ac Eleri, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth lem.

Daeth newyddion trist i ni am farwolaeth y ddiweddar Eryl Seddon, Rhes Gerlan. Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â'i merch, Amanda Jones, ei phriod, Robert, Rhes Gerlan, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth

Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i Annie Bailey Hughes, a'r teulu, Gwernydd yn eu colled drist o golli priod a thad annwyl, y diweddar Tony Bailey Hughes.

Mae'n cydymdeimlad dwys yn cael ei estyn gennym i Alison Parry a'r teulu, Ciltrefnus, yn eu profedigaeth fawr o golli mam Alison, y diweddar Marilyn Parry, oedd yn trigo yn Yr Hen Ysgol, Rachub.

Bryisia wella

Rydym yn falch iawn o weld Richard Ogwen, Yr Ardd Fawr, o gwmpas yr ardal unwaith eto wedi iddo dderbyn triniaeth i gael clun newydd yn Ysbyty Gobowen. Rydym yn gyrru ein cofon cynnes atat, Richard, ac yn dymuno gwellhad llwyr a buan i ti.

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's
Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau
siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131



YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



SIOP OGWEN

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois,
Creffttau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!
Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am
eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhowch ganiad
i'r Siop am ragor o wybodaeth.
33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org
01248 208 485

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor
LL57 4HU ☎ 01248 354280
Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái,
Bangor LL57 4HU ☎ 01248 351633

Dathlu Gŵyl Dewi

Yn ôl ein harferiad, cafwyd swper Gŵyl Dewi yn Neuadd Talgai, gyda chefnogaeth dda, a chyfle i gyfarfod cymdogion newydd. Cawsom ein diddanu gan rai o aelodau Côr Rygbi'r Gogledd.

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Cynllun "Agor y Llyfr"
Ar 2 Chwefror 2017 cynhaliwyd gwasanaeth "Agor y Llyfr" gyda disgyblion Ysgol Llandygai. Mrs Jennifer Roberts, Cydlynnydd Gweithgareddau'r Ifanc, Bro Ogwen a Mrs Rhian Llewelyn Jones, aelod o'r eglwys, oedd yn arwain y gweithgaredd. Testun Beiblaidd y dydd oedd "Hanes y Wraig a'r Darn Arian Coll". Mae'n braf cael cryfhau cyswllt hanesyddol yr eglwys â'r ysgol leol.

Gweithgareddau'r Eglwys Mis Mawrth

Croesawyd sawl aelod o eglwysi eraill i Sant Tegai fore Dydd Mercher Lludw. Y Ficer, y Parchedig John Matthews, a'r Chwaer Julian oedd yn arwain y gwasanaeth i ddechrau cyfnod y Garawys.

Ar fore Sul 5 Mawrth mynychodd aelodau cynulleidfa Sant Tegai wasanaeth ar y cyd i chwe eglwys Bro Ogwen yn Eglwys Crist Glanogwen, Bethesda. Y pregethwr oedd Esgob Bangor Y Gwir Barchedig Andrew John.

Codi Arian i Gronfa'r Eglwys
Ar 14 Mawrth trefnodd Mrs Liz Bestwick a'i ffrindiau Noson Helfa Chwilen (*Beetle Drive*) yn Neuadd Talgai Llandygái.

Bu aelodau o'r eglwys hefyd yn cynnal stondin yn Ysbyty Gwynedd er budd Cronfa Atgyweirio Sant Tegai a diolch i Dorothy Hanks, Ann,

Rhian, Hazel ac Edmond am drefnu'r gweithgaredd.

Cwrs Garawys Bro Ogwen
Cynhelir cwrs i drafod themâu'r Garawys bob nos Fercher cyn y Pasg am 7 o'r gloch yn y Ficerdy Pentir. Y Ficer fydd yn arwain y gweithgareddau a chroeso i bawb fel arfer.

Amseroedd gwasanaethau
Sant Tegai
Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y bore.
Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y bore

Sefydliad y Merched Llandygai

Eirlys Edwards oedd llywydd cyfarfod mis Chwefror ar b'nawn Mercher 22 Chwefror. Croesawodd pawb, a gofynnodd i ni sefyll i gofio am aelod annwyl arall a gollwyd ddiwedd Ionawr, sef Mrs Phyllis Davies, Bangor. Anfonwyd ein cofion cynnes at Hefina ac Eira hefyd, ac rydym yn dymuno gwellhad i'r ddwy ohonynt. Roedd amryw'n absennol a chafwyd eu hymddiheuriad.

Derbyniodd y gangen swm o arian gan deulu'r ddiweddar Val Withers fel gwerthfawrogiad o'n cymorth a'n cyfeillgarwch gyda gweini'r lluniaeth ddydd ei hanglad.

Yna cyflwynodd Eirlys y gwestai, sef Mrs Pat Jones Brynrefail. Dangosodd Pat, yn ei ffordd annwyl a di-ffws sut i wneud blychau bach ffansi i ddal tlysau bach.

Mwynhaodd pawb y p'nawn a gwelwyd blychau bach del iawn ar y diwedd. Diolchodd Irene yn gynnes i Pat am bnawn hynod o ddifyr. Yna cawsom baned a sgwrs oedd wedi ei baratoi gan Liz a Nesta.

Caerhun a Glasinfryn

Marred Glyn Jones, 2 Stryd Fawr,
Glasinfryn, Bangor, LL57 4UP
☎ 01248 351067
marred567@btinternet.com

Cylch Glasinfryn
Y newyddion cyffrous ydi fod cymdeithas newydd sbon ar gyfer merched wedi cael ei ffurfio yn yr ardal. Mae *Cylch Glasinfryn* yn cynnig cyfle i ferched sydd eisiau cyfarfod i wrando ar sgysiau gan siaradwyr gwadd, i gael sgwrs a phaned a rhoi'r byd yn ei le, heb orfod fod yn gaeth i bwyllgorau a thrafod busnes. Gobeithir trefnu ymweliadau o bryd i'w gilydd i

wahanol lefydd o ddiddordeb. Cynhelir y cyfarfodydd yn ddwyieithog ar yr ail nos Fercher o bob mis am 7yh yn y Ganolfan yng Nglasinfryn. Bydd y cyfarfod nesaf ar 12 Ebrill. Ar hyn o bryd mae gennym bymtheg o aelodau a gobeithir denu mwy, nid yn unig o'r ardal hon ond o'r cyffiniau. Bydd croeso cynnes iawn yn eich disgwyl. Os am fwy o fanylion, cysyllter â Mair Griffiths, Ffôn: 01248 352966.

Bingo
Cynhelir y sesiwn Bingo nesaf yn y Ganolfan, er budd yr Uned Strôc yn Ysbyty Gwynedd, ar 7 Ebrill am 7.30yh. Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniad tuag at y gwobrau a'r raffl. Fe hoffai Mary ac Ann ddiolch o galon i bawb sy'n cefnogi'r sesiynau Bingo yn y Ganolfan, ac sy'n

cyfrannu at y gwobrau a'r raffl. Diolch yn arbennig i Elsie Prydderch a'i chwaer, Gwyneth am eu rhoddion hael a charedig.

Cydymdeimlo
Roedd yn drist clywed am farwolaeth Paul Newman, Tŷ Derwen, Glasinfryn a fu farw'n ddiweddar yn dilyn salwch byr. Symudodd Paul a'i wraig Anne i'r pentref o'u cartref yn Ffrainc, lle roedden nhw wedi bod yn byw ers rhai blynnyddoedd, er mwyn bod yn agos at eu mab, Gary, a'i deulu, sy'n byw yn Hen Gapel. Roedd y ddau wedi setlo'n dda ac wedi gwneud ffrindiau newydd. Roedd Paul yn wr bonheddig a charedig ac mi fyddwn ni ym mhentref Glasinfryn yn ei golli. Anfonwn ein cydymdeimlad at Anne, a'u meibion Gary a Michael, a'r teulu i gyd.



CHWILAIR

STRYDOEDD BETHESDA
Yn y chwilair mis yma mae enw DEUDDEG STRYD. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i wrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahan).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW, erbyn EBRILL 4ydd. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobwr.

Mae enw deuddeg stryd yn y chwilair y mis yma. Nid wyf wedi rhoi y gair FFORDD na STRYD o flaen yr enw. Daeth llu o atebion trwy'r post y mis diwethaf, ond roedd nifer ohonoch wedi methu NIWBWRCH ac wedi darganfod Llannerch yn lle RHOSLLANNERCHRUGOG. Gobeithio cewch hwyl gyda Strydoedd Bethesada.

Dyma atebion Chwefror:- Aberaeron; Bala; Blaenau Ffestiniog; Dinbych y Pysgod; Gwaun Cae Gurwen; Llangefni; Machynlleth; Niwbwrch; Porthmadog; Rhosllannerchrugog; Ton-y-Pandy; Ystralafera. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:-** Elizabeth Buckley, Tregarth; Lois Angharad Hughes, Gerlan; Mair Williams, Mynydd Llandegai; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwilym a Barbara Owen, Rhos y Nant; Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf; Doris Shaw, Bangor; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge; Carys Parry, Glanogwen; Mair Jones, Ffordd

P	A	G	L	A	N	R	A	F	O	N	A	W	F	H	R	I	E	J	L
A	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	G	V
N	B	L	H	M	D	B	R	Y	N	T	I	R	I	O	N	G	W	H	U
T	Z	R	O	M	X	V	A	D	D	N	A	P	A	U	Q	O	U	S	O
G	F	R	Y	N	P	Y	Q	Z	G	R	H	C	U	M	W	R	N	O	Y
L	R	I	A	N	D	S	Z	U	T	F	D	X	U	P	W	O	R	H	C
A	Q	H	W	E	T	D	H	O	Y	E	E	G	E	O	M	N	H	E	P
S	T	T	C	B	B	E	W	C	U	U	J	P	L	T	M	W	I	V	V
D	C	B	B	F	R	F	G	R	O	G	J	V	G	I	I	Y	R	R	X
I	M	H	T	T	O	S	K	O	P	W	R	E	C	M	K	N	C	B	O
R	C	X	V	R	Y	H	S	T	M	R	S	E	F	Y	Y	J	D	Z	H
B	C	W	O	S	C	C	R	A	I	A	X	N	I	R	L	X	J	J	M
B	W	T	E	X	R	M	D	X	C	K	S	F	B	U	P	C	Q	Y	O
I	N	L	F	A	E	R	Z	R	Q	A	R	Y	R	O	C	T	D	G	W
S	L	A	B	Z	E	B	E	E	L	A	N	O	J	K	J	C	L	N	L
R	V	N	G	O	G	B	J	D	P	E	M	W	P	G	S	O	W	J	J
Q	E	U	L	R	A	F	Y	S	P	T	V	T	X	E	U	G	H	S	L
H	Z	E	A	F	O	R	X	I	E	W	T	Z	H	K	V	A	G	B	N
K	A	D	S	i	F	M	K	O	O	G	D	H	B	S	I	U	R	O	X
A	G	X	R	F	A	E	C	E	K	K	D	A	N	T	O	G	W	B	M

Bangor; Meic Jones, Bangor; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Rosemary Williams, Tregarth; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Llewela O'Brian, Bangor; Ogwen Griffiths, Gerlan; Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Myfanwy Jones, Gaerwen;

Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; John a Meirwen Hughes, Abergele; Helen Jones, Tregarth; Gwilym Evans, Niwbwrch.

Enillydd Chwefror oedd. Mair Jones, Bryn Onnen, Ffordd Bangor, Bethesda.

Ynni Ogwen

Mae gwaith adeiladu cynllun ynni dŵr cymunedol Ynni Ogwen yn prysur ddod tua'i derfyn. Mae'r holl waith yn yr afon wedi ei gwblhau ac mae'r beipen fydd yn cludo'r dŵr i lawr i'r cwt tyrbein yn awr wedi ei gwblhau. Mae'r cwt hefyd ar ei draed ac yn barod i dderbyn y tyrbein sy'n cael ei adeiladu gan gwmni Ossberger o'r Almaen ar hyn o bryd.

Dros y misoedd diwethaf, mae criw Ynni Ogwen wedi bod yn trafod ein gwaith gyda nifer o grwpiau gwahanol yn cynnwys cyflwyno 'Pŵer Ynni i'r Bobl' yng nghynhadledd CPRW yn Llanberis a chyfarfod Pwyllgor Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys Aelodau Cynulliad o bob plaid. Roedd yr aelodau cynulliad ar ymweliad â nifer o gynlluniau ynni adnewyddol yn Nyffryn Ogwen a chroesawyd hwy i'r safle adeiladu gan Meleri a Keith o Fwrdd Cyfarwyddwyr Ynni Ogwen. Roedd yr ymweliad yn gyfle i sôn am werth cymunedol y fenter hon a sôn hefyd am brosiect Cyd Ynni - Ynni Lleol - sef peilot cyflenwi ynni gwyrdd arloesol sy'n cael ei dreialu yn Nyffryn Ogwen. Hefyd yn bresennol, roedd cynrychiolwyr o grŵp ynni cymunedol Ynni Padarn Peris ac Uwch Swyddogion Scottish Power.



Gruff Wyn a rhai o'r cyfranddalwyr.

Ym mis Hydref hefyd, cynhaliwyd ymweliad arbennig i holl gyfranddalwyr Ynni Ogwen i'r safle adeiladu. Roedd yr ymweliad yn gyfle i'r aelodau gyfarfod rhai o'r cyfarwyddwyr, y contractwr Gwyn Roberts a gweld yr holl waith sydd wedi ei wneud hyd yma. Mae'r fenter yn cynnal perthynas agos â'u cyfranddalwyr ac mae eu gwaith ymgysylltu cymunedol wedi ennill cryn sylw i'r grŵp. Yn dilyn ennill y wobr gyntaf yng Ngwobrau Renewables UK Cymru, derbyniodd Ynni Ogwen dystysgrif 'Clod Arbennig' yng Ngwobrau Cynnal Cymru ddiwedd mis Tachwedd. Mae'r ddwy wobr yn destun balchder i'r fenter amgylcheddol o Ddyffryn Ogwen.

Cymorth Newid Cyflenwr

Mae Ynni Ogwen yn cynnig gwasanaeth



Beca Roberts

newydd lle gall ein cynghorydd newid cyflenwr cymwys, Beca Roberts, eich helpu i wneud arbedion sylweddol ar eich biliau ynni.

Os nad ydych erioed wedi newid cyflenwr ynni, efallai y byddwch yn edrych ar werth hyd at £300 y flwyddyn o gynilion, a hyd yn oed os ydych chi wedi newid tariff, efallai y byddwch yn dal i allu gwneud rhai arbedion. Mae cael y cyfraddau cystadleuol hyn yn gymharol hawdd, a gall ein llyfryn canllawiau newydd sydd ar gael ar ein gwefan eich tywys gam wrth gam drwy'r broses.

Fel arall, ffoniwch ein swyddfa ar 01248 602131 a threfnwch ymgynghoriad rhad ac am ddim. Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, bydd Beca yn gallu trafod eich opsiynau a'ch helpu i newid cyflenwr.

Ffair Arbed Ynni Dyffryn Ogwen

Roedd Ffair Arbed Ynni gyntaf y dyffryn, a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 25 Chwefror yn Neuadd Ogwen Bethesda, yn llwyddiant mawr, yn ôl barn y rhan fwyaf o bobl a oedd yna. Cafwyd stondinau gan grwpiau ynni y dyffryn ac roedden nhw'n ateb cwestiynau am gynnydd Ynni Ogwen ac yn helpu'r sawl sy'n rhan o beilot Cyd Ynni-Ynni Lleol i roi eu 'dangosfwrdd ynni' ar waith ar eu cyfrifiaduron. Roedd David a Carwyn, dau o bencampwyr Cyd Ynni, yn dangos eu teclyn diweddaraf sy'n eich helpu i gofio faint o offer trydanol barus sydd ymlaen gennych chi - ac mae'n declyn reit ddel!

Stondinau eraill poblogaidd oedd Energy Local gyda Robin yn dangos dwsin o wahanol fathau o fylbiau LED ac yn rhoi cyngor ar sut i ddewis yr un iawn i bob lamp yn y tŷ; grwpiau Beicio Bangor a Sustrans yn hyrwyddo beicio yn yr ardal; a chwmni CarbonZero Renewables o Lanelwy sy'n gosod paneli

Egin Ogwen

Mae Partneriaeth Ogwen yn prysur gynllunio prosiect newydd yn Nyffryn Ogwen, ar y cyd â Balchder Bro, Ynni Ogwen a phartneriaid cymunedol eraill. Enw'r prosiect yw Egin Ogwen a'r weledigaeth yw adfywio strydoedd Bethesda gyda phwnc all bawb ymgysylltu ag o - bwyd!

Bydd prosiect Egin Ogwen yn gweithio gyda gwirfoddolwyr i drawsnewid ardaloedd o amgylch Bethesda sydd angen ychydig o sylw (e.e. y potiau tyfu y tu allan i Spar). Ond, yn lle plannu blodau a choed anfwytadwy, byddem yn plannu llysiau, perlysiau a choed ffrwythau er lles y gymuned. Y rhan pwysicaf o'r prosiect yw y bydd unrhyw berson yn cael pigo a bwyta'r cynnyrch yma!

Ein gobaith yw annog pobl leol i gymryd rhan mewn plannu a thyfu bwyd, addysgu ein gilydd ar y manteision o fwyta bwydydd ffres a thrwy hyn, meithrin ymdeimlad o gydlynid rhwng pobol y dyffryn yn ogystal ag ymdeimlad o barch at ble rydym yn byw! Rydym yn gobeithio cyflawni'r nodau hyn drwy weithio gyda'n gilydd i rannu ein brwdfrydedd ac arbenigedd, a thrwy ddysgu am blanhigion bwytdwy; boed yn y maes, yn yr ystafell ddosbarth neu'r gegin.

Mae prosiectau tebyg i hyn yn bodoli ledled Cymru a Phrydain ac mae eu nod yn fras yr un peth; i ddod â chymunedau at ei gilydd trwy ddechrau sgwrs am fwyta bwydydd iach, ffres ac organig. Mae'r prosiect hwn yn ceisio addysgu pobl Dyffryn Ogwen am fwyd mewn modd

haul a batris i storio ynni yn y nos. Roedd Canolfan Technolegau Amgen wedi dod yr holl ffordd o Fachynlleth i fynychu ein ffair! Yn ogystal, roedd stondinau eraill yn rhoi cyngor cyffredinol ar sut i arbed ynni (ac arian) yn y tŷ, ac roedd cyfle i fod yn greadigol hefyd hyd yn oed! Roedd Meilyr a Gwen o'r Dref Werdd ym Mlaenau Ffestiniog wedi dod â pheiriant gwnïo, ac roedden nhw wrthi'n ffwl sbîd yn dangos i bobl sut i wneud eu nadroedd atal drafftiau eu hunain o hen ddŵfes a defnyddiau! Melinau gwynt o bapur oedd y plant yn eu gwneud.

Gwelwyd yr ymwelwyr yn cael sgysiau dwys ac ysbrydoledig efo'r stondinwyr (ac efo'i gilydd), a syniadau'n cael eu trafod am ffyrdd o fod yn fwy gwyrdd, datblygu pethau newydd a rhoi prosiectau eraill ar waith. Gofynnodd un o'r stondinwyr wrth adael pryd fyddai'r ffair nesaf, cymaint yr oedd o wedi mwynhau! Diolch i bawb a oedd yna, yn stondinwyr ac yn ymwelwyr, i wneud y ffair yn gymaint o lwyddiant.

cynhwysol a llawn hwyl, yn tynnu pobl o’u tai i fwynhau ein tref, ac i ddatblygu ymdeimlad cryfach o berchnogaeth a pherthyn. Mae gan y prosiect fudd i’r gymuned gan y bydd pobol yr ardal yn cael eu hannog i ymgysylltu â’n siopau, ein caffis a’n mentrau lleol a bydd ein stryd fawr yn cael ei thrawsnewid i mewn i dirwedd gwyrdd a bwyriadwry trwy ddod â mwy o fywyd (yn llythrennol) i’r stryd fawr.

Mae’r cynllun tyfu cymunedol Egin Ogwen yn croesawu unrhyw un o unrhyw oedran i ymuno â ni i gyflawni’r nodau hyn, faint bynnag o brofiad sydd gennych. Y cyfan yr ydym yn gofyn amdano yw llond berfa o frwdfrydedd a pharodrwydd i gael eich dwylo’n fudr!

Bwriadwn gynnal diwrnod lansio Egin Ogwen yn Llys Dafydd ar Ebrill 8fed. Bydd yn gyfle i rannu syniadau, a thrafod ein gobeithion. Yn ogystal, mi fydd yno nifer o weithdai coedwigaeth, cyfle i roi cynnig ar eich sgiliau bwa saeth, sesiwn creu murlun gydag artist lleol a nifer o stondinau gan fudiadau lleol yn gwerthu cynnyrch ffres.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli cysylltwch â Beca Roberts ar beca@ogwen.org, neu drwy ein grŵp Facebook ‘Egin Ogwen’.

Budd Cymdeithasol Partneriaeth Ogwen

Mae Partneriaeth Ogwen yn fenter adfywio cymunedol sy’n prysur dyfu. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae’r Bartneriaeth wedi bod yn gyfrifol am ddatblygu mentrau cydweithredol newydd yn cynnwys Ynni Ogwen, clwb Cyd Ynni Ogwen a Siop Ogwen. Rydym hefyd wedi cefnogi nifer o fentrau a phrosiectau eraill yn lleol ac rydym yn parhau i gydweithio â nifer o bartneriaid ar lawr gwlad. Yn ddiweddar, cynhaliwyd astudiaeth annibynnol o waith Partneriaeth Ogwen gan Cynan Jones o Ymgynghoriaeth TJB Cymru Cyf. Roedd yr astudiaeth yn edrych ar werth budd cymdeithasol gwaith Partneriaeth Ogwen a chanfuwyd fod gwaith Partneriaeth Ogwen wedi esgor ar fudd cymdeithasol gwerth £2,243,943 i gymunedau Dyffryn Ogwen rhwng 2013 a 2016. Ymhellach, roedd yr adroddiad yn rhagdybio y bydd cynllun Ynni Ogwen - un o brif brosiectau adfywio Partneriaeth Ogwen - yn creu budd cymdeithasol ychwanegol gwerth £1,331,390 i’r ardal. Mae hyn yn destun balchder i ni fel menter gymdeithasol ifanc a hoffem ddiolch i’r gymuned am eu cefnogaeth i’n gwaith dros y tair blynedd gyntaf.

Mae gan y Bartneriaeth wefan newydd sydd wedi ei llunio yn arbennig i ni gan Nick Pipe, Dab Design o Fynydd Llandygai. Mae’r wefan yn rhoi trosolwg o’n prif feysydd gwaith ac yn rhoi gwybodaeth am waith y 3 chynghor cymuned yn lleol. Cyfeiriad y wefan yw www.ogwen.org. Mae

山田派系東流修交会空手道

KARATE-DO

Y FFORDD WAGLAW

KARATE SHUKOKAI BETHESDA

Yn Plas Ffrancon

Dwywys gynta am ddim

HUNAN AMODIFFYN - HUNAN HYDER

FFITRWYDD - DISGYBLAETH - PARCH

SHITORYU SHUKOKAI KARATE-DO

TRADDODIADOL

* £35 y mis disgownt teuluol

* Dim Cytundeb, Dim Cyfeirnod Debyd

* Strwythur Graddio Traddodiadol

* Hyfforddwr 4ydd Dan ac Aelod o Dim Enillodd Gwpan y Byd 2007

* Pennaeth Soke Yamada Sensei 10fed Dan o Japan

NOS FWYTHA A NOS IAU

7 TAN 8 O’R GLOCH I BLANT HYD AT 12 OED

8-9 O’R GLOCH I BLANT DROS 13 OED

AC OEDDOLION

I SICRHAU EICH LLE YN Y CLWB:

FFON: 07595 361624

Ehost: shukokaiwales@icloud.com

Y WE: www.shukokai-wales.com

holf ni ar facebook facebook.com/shukokainorthwales

copi o adroddiad blynyddol Partneriaeth Ogwen ar gael ar y wefan yn ogystal. Bydd Meleri Davies, Prif Swyddog y Bartneriaeth yn mynd ar gyfnod mamolaeth ddiwedd Mawrth a dymunwn yn dda iddi. Mae swyddi dros dro wedi eu hysbysebu i lenwi’r bwch ac edrychwn ymlaen at benodi’r swyddogion ym mis Mawrth/Ebrill. Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn parhau i gefnogi datblygiad Siop Ogwen, Ynni Ogwen a Cyd Ynni ond edrychwn ymlaen hefyd i gydweithio â’r gymuned ar brosiectau cyffrous newydd.

Carneddi

Derfel Roberts, Llys Artro, Carneddi
☎ 600965 hylaw@btinternet.com

Geni
Llongyfarchwn Richard a Ruth Corns o Gaergrawnt (Cilfodan gynt) ar enedigaeth mab bach o’r enw Edward ar Chwefror 24. Mae Richard wrth gwrs yn fab i’r Athro Tom Corns a Mrs Pat Corns, Cilfodan ac mae nain a taid wrth eu boddau. Llongyfarchiadau i’r teulu bach a chofon gorau atat ti Richard gan holl drigolion Cilfodan a Charneddi.

Ennill Tarian
Dyma lun o Pat Corns, Cilfodan sydd newydd orffen ei thymor yn gapten Adran y Merched yng Nghlwb Golff Henllys. O dan ei harweiniad enillodd y tîm cyntaf y darian yn yr ail adran o Gynghrair Gogledd Cymru ac oherwydd hynny fe fyddan nhw’n cystadlu yn yr adran gyntaf y flwyddyn nesaf.
Llongyfarchiadau mawr a da iawn chi ferched!





Hywel Williams

Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



Siân Gwenllïan

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a’r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyo ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Ambwch (01407) 831777	Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS



**Paentiwr
Papurwr
Teilsiw**

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Malinda Hayward
(Gwniadwraig)
Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Nyth Y Gân

Un Nos Ola Leuad
Mor oer fu'r lloer yn y llun, a hunllef
Ei hunlliw'n creu dychryn;
A hi'n gaeth wrth gwmwl gwyn,
Ei adael a wnaeth wedyn.

Y Mynyddoedd
Eu herio fu'r tymhorau yn ofer
A'u nifer elfennau;
Llymder yw'r uchelderau,
Ar y brig ni cheir y brau.

Gardd y Gaeaf
Mae'n edrych fel sawl gardd yn awr,
Does ynddi fawr o groeso,
A thawel yw yr un fu gynt
Yn lloches gwynt a'r lleisio.

Fe ddaw yr adar yn eu tro
I chwilio am le i nythu,
A deffro wnânt y lle â'u cân
A'r lluoedd mân sy'n cysgu.

Mor farwaidd yno deil o hyd
Fel crud i'r tyfiant bychan,
A newid wna'r carpedi hyn
A'r melyn ddaw ym mhobman.

Rhyw dyfiant newydd ddaw i'r ardd
Yr hwn a dardd o hadau,
A braf fydd gweld rhai llwyni'r ha'
A lenwa ein calonnau.

Y Mynydd-dir
O gam i gam drwy gymoedd mawr a llwm
Ond mor llawn eu tiroedd;
Hen ffin ein cynefin oedd
A'n rhyddid yn y ffriddoedd.

Lliwiau
Y lliwiau a'n gwna ni'n llawen o hyd
Dan adain yr heulwen
Ac o dan llawer seren,
Rhônt i'r byd nes dônt i ben.

Dafydd Morris

CHRIS GRIFFITHS
Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythyrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái ☎ 600744

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Glyn ac Anwen a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Marilyn, chwaer Glyn, yn sydyn. Rydym yn meddwl amdanoch, a hefyd am Ron, gŵr Marilyn, a'r plant yn Rachub. Ein cydymdeimlad dwysaf atoch i gyd.

Gwellhad

Newydd glywed bod Selwyn Evans, Bwlch y Ffordd, yn yr ysbyty ers tro. Rydym yn mawr obeithio eich bod yn gwella Selwyn. Cofion gorau atoch.

Eglwys St. Ann a St. Mair

Mawrth 19: Boreol Weddi
Mawrth 26: Sul y Fam – Cymun Bendigaidd
Ebrill 2: Gwasanaeth Teuluol
Ebrill 9: Cymun Bendigaidd
Ebrill 16: Sul y Pasg – Boreol Weddi

Dechreuir y gwasanaethau am 9.45 yb

Estynnwn groeso cynnes i bawb – plant, oedolion a theuluoedd – i ymuno â ni yn ein gwasanaeth ar Sul y Fam. Bydd paned ar gael i bawb yn dilyn y gwasanaeth.

Cofiwn am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Balchder Bro Ogwen

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Balchder Bro ac adroddodd y Cadeirydd, Neville Hughes sut roedd y mudiad wedi cychwyn yn 2009 gyda'r nod o weddnewid golwg Stryd Fawr Bethesda yn bennaf. Cafwyd grantiau Trefi Tacslu a chyflawnwyd nifer o weithgareddau, sef plannu bylbiau, plannu coed gyda Merched y Wawr, garddio ger Abercaseg, trefnu cystadlaethau amgylcheddol i ysgolion y fro, cynhyrchu bagiau lliain ar adeg pan oedd miloedd o fagiau plastig yn cael eu rhoi am ddim gan yr archfarchnadoedd, a dau beth yr ydym yn dal i'w gwneud yn rheolaidd sef casglu sbwriel a gosod basgedi crog ar y Stryd Fawr bob blwyddyn. Nodwyd bod plant Ysgol Llanllechid ac Ysgol Penybryn wedi ymuno yn ein gweithgareddau sawl tro, gan ein helpu i gasglu sbwriel a phlannu bylbiau. Mae'r gwaith addysgiadol hwn yn elfen bwysig o gyfraniad Balchder Bro i'n cymuned.

Diolchodd Neville i bawb oedd wedi cymryd rhan dros y blynnyddoedd ac yn enwedig i Paul Rowlinson am ei waith fel Ysgrifennydd a Thrysorydd ac am ysgrifennu hanesion achlysurol am ein gweithgareddau ar gyfer *Llais Ogwan* a'r papurau lleol.

Diolchodd Neville i Gyngor Cymuned Bethesda, sydd wedi rhoi grant blynnyddol o £1,000 ers nifer o flynyddoedd oedd yn cael ei wario ar brynu basgedi crog yn bennaf. Nododd y bydd rhai o'r cynghorau cymuned yn awr yn cyflogi swyddog rhan-amser er mwyn cadw'r ardal yn daclus a gwneud gwaith cymunedol arall a gobeithio y bydd cyfle i Falchder Bro gydweithio â'r swyddog hwn.

Ailetholwyd Neville Hughes yn Gadeirydd, Walter Williams yn Is-gadeirydd, Paul Rowlinson yn Ysgrifennydd a Thrysorydd a Mary Jones, Dafydd Owen a Heulwen Roberts fel aelodau'r pwyllgor

Bydd Balchder Bro yn parhau i osod basgedi crog ar Stryd Fawr Bethesda a'u cynnig mewn

rhai llefydd eraill ym Methesda, Rachub a Tregarth. Bydd yn parhau i hel sbwriel o dro i dro. Yn ogystal, bydd Balchder Bro yn chwarae rhan mewn nifer o ddatblygiadau eraill sydd ar y gweill. Mae Judith Kaufmann wrthi'n sefydlu perllan gymunedol ac mae Balchder Bro yn bartner yn y gweithgaredd hwn. Mae'r saith coeden gyntaf eisoes wedi cael eu plannu yn ddiweddar.

Mae Cyngor Cymuned Bethesda yn ystyried a oes galw am randiroedd ac wedi gofyn i Bartneriaeth Ogwen ymchwilio ymhellach i hyn. Bydd Partneriaeth Ogwen yn cynnal diwrnod agored 'Egin Ogwen' yn Llys Dafydd ar 8 Ebrill i asesu'r galw a hyrwyddo garddio cymunedol yn ehangach. Mae Balchder Bro Ogwen wedi derbyn gwahoddiad i fod yn un o'r partneriaid yn y fenter gyffrous hon hefyd.

Os hoffech wirfoddoli gyda Balchder Bro i helpu i harddu'r ardal, cysylltwch â Paul Rowlinson ar y rhif 605365 neu ar paul.rowlinson@trysor.f9.co.uk ac os dymunwch i wirfoddolwyr Balchder Bro ddod i weithio mewn unrhyw ardal arbennig gallwch gysylltu ag un o'r aelodau uchod neu ag un o'ch cynghorwyr lleol a fydd yn anfon eich neges ymlaen.

Sefydlwyd1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

Y Rhyfel Byd Cyntaf

JOHNNIE WILLIAMS
gan Andre Lomozik

Mae tri o feibion ardal Bethesda, a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn cael eu coffáu yn y Llais y mis yma. Ond mae ychydig mwy o hanes i un ohonynt sef Johnnie Williams. Diolch i Carys Parry, Glanogwen am y wybodaeth yma. Roedd medal ei hen ewythr yn ei meddiant ers blynnyddoedd, ond nid oedd yn gwybod fawr ddim amdano. Felly penderfynodd wneud ychydig o ymchwil am Johnnie Williams, sef brawd ei nain. Holodd ei chyfnither Margaret, a thrwy lwc roedd ganddi ddau lun yn ei meddiant, sef llun Johnnie, yn ei wisg filwrol, a llun o'i fedd pan gladdwyd ef yn 1917 ar faes y gad. Bachgen 22 mlwydd oedd is-gorpral Johnnie Williams F/2729 Middlesex Regiment, pan glwyfwyd yn ymladd yn Fflandrys, ac yno bu farw o'i glwyfau. Mab i Thomas John a Sarah Elen Williams, 7 Douglas Terrace, Bethesda. (2 Caerberllan a nodir

ar y gofeb ym Methesda). Mae record gwasanaeth Johnnie yn cofnodi ei fod yn byw yn Norwich, ar y pryd, mae hyn yn awgrymu mai dyma lle roedd y Middlesex Regiment wedi ymsefydlu cyn croesi i'r cyfandir i ymladd. Rhai blynnyddoedd yn ôl bu Carys yn sgwrsio â John Wood, plismon oedd ar gychwyn i ymweld â mynwentydd Fflandrys, gyda rhai o'i ffrindiau, a chynigiodd ymweld â bedd Johnnie os byddai amser yn caniatáu. Gofynnodd i Carys a oedd hi'n dymuno iddo roi ychydig o flodau ar y bedd os daethai o hyd i'r garreg. Ond meddylodd Carys mai darn o lechen las Dyffryn Ogwen fyddai orau. Daeth y gŵr o hyd i'r bedd ym mynwent Peronne Road Maricourt, a gosododd y llechen las, gyda siâp calon naturiol ar wyneb y llechen, yn ei lle, a thynnodd lun o'r bedd fel memento i Carys.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



- 18 Mawrth – Cefnfaes – Plaid Lafur.
- 25 Mawrth – Cefnfaes – Cronfa Achub y Plant
- 01 Ebrill – Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir.
- 08 Ebrill – Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 22 Ebrill – Cefnfaes - Cymdeithas Jerusalem.
- 29 Ebrill – Cefnfaes – Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.
- 06 Mai – Cefnfaes – Neuadd Talgai
- 13 Mai – Cefnfaes – Cymorth Cristnogol.
- 20 Mai – Cefnfaes - Gorffwysfan
- 10 Mehefin – Caffi Coed y Brenin – NSPCC
- 01 Gorffennaf – Neuadd Ogwen – Eisteddfod Dyffryn Ogwen
- 15 Gorffennaf – Cefnfaes – Cronfa Tracey Smith.
- 07 Hydref – Cefnfaes – Plaid Cymru
- 21 Hydref – Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 28 Hydref – Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir.
- 04 Tachwedd – Cefnfaes – Neuadd Talgai.
- 11 Tachwedd – Caffi Coed y Brenin – NSPCC
- 25 Tachwedd – Neuadd Ogwen – Plaid Lafur
- 25 Tachwedd – Cefnfaes – Clwb Gorffwysfan.

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag.
Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis.
Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

- Ebrill 8fed**
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm
 - Mai 13eg**
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm
 - Mehefin 10fed**
Cae Sioe Dyffryn Ogwen
- Bwydydd, Creffttau, Lleol
- www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST
MAWRTH 28
EBRILL 11 A 25
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
PLAID LAFUR**
18 MAWRTH 2017
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
CRONFA ACHUB
Y PLANT**
SADWRN, 25 MAWRTH
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

EGLWYS ST. CEDOL
SADWRN, 1 EBRILL
10.00 – 12. 00

**Te Bach Carmel
Llanllechid**
yn y Festri
Mawrth 27 ac Ebrill 10
2.30 – 4.00yp - Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
EISTEDDFOD
DYFFRYN OGWEN**
SADWRN, 8 EBRILL
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

Llwyddiant Mastermind

Welsoch chi rownd derfynol y rhaglen Mastermind a ymddangosodd Nos Wener 3 Mawrth ar BBC 2? Roedd Lynn Edwards, Rhes Gordon, nyrs wedi ymddeol ac sydd bellach yn fyfyrwraig, yn un o'r cystadleuwyr. Ei phwnc arbenigol oedd ffilmiau Alfred Hitchcock. Rydym yn ei llongyfarch yn galonnog iawn ar ei llwyddiant arbennig.



Stondin newydd! Croeso mawr i Jo-Jo Elis-Williams i Farchnad Ogwen. Mae hi'n gwerthu dillad ffansi i blant ac enw ei stondin yw Pethau Bach Hud. Pob dymuniad da i Jo-Jo.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd sydd ar y Stondin Elusen mis Ebrill. Rydan ni i gyd yn gwybod am eu gwaith rhagorol a'u cyfraniad aruthrol i Ysbyty Gwynedd. Dim ond Mai, Gorffennaf ac Awst sydd ar gael yn 2017 erbyn hyn.

Mae Ceri Rhiannon yn gwerthu canhyllau ar y Stondin 'Un Tro' ym Marchnad Ebrill. Misoedd Gorffennaf, Awst, Medi a'r Farchnad dydd Sadwrn ym mis Tachwedd sydd ar gael. (Mae Marchnad nos Tachwedd wedi ei llogi).

Os ydych eisiau llogi Stondin, cysylltwch â'r Ysgrifennydd - ysgrifennydd@marchnadogwen.co.uk.

Mae gwybodaeth lawn ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk hefyd ar facebook a Twitter.

Croeso cynnes.



I hysbysebu yn Llais Ogwan, Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Côr y Penrhyn

Gyda'r gwanwyn a'r haf ar y trothwy mae dyddiadur y côr yn eithriadol o lawn. Ar wahân i'r galwadau arferol yng Ngwynedd a Môn fel rheiny ym Miwmares, Llandudno a Bangor dyma rai o'r prif gyngherddau sy'n ein hwynebu dros y misoedd nesaf.

Mai 20 - Beverley ger Hull yn Swydd Efrog. Buom yno rai blyneddau yn ôl ac fe gafodd ein rhaglen dderbyniad cynnes iawn gyda phob sedd yn llawn.

Mehefin 17 - Cyngerdd mwyaf y flwyddyn gyda Band Black Dyke. Hwn yw prif gyngerdd y côr am 2017 ac mae'r tocynnau eisoes yn mynd yn dda am y prisiau hynod o resymol o £16 ac £20. Os ydych chi am sicrhau tocyn di-dreth sicrhewch rai drwy

gysylltu ag aelod o'r côr. Mae gan Walter Williams, Arennig, Erw las, Bethesda, Ffôn 01248 601167 neu waltermenai@yahoo.co.uk rai i'w gwerthu'n uniongyrchol i aelodau'r cyhoedd ac ni fydd raid i chi dalu cost gweinyddu fel sy'n digwydd trwy brynu gan y theatr.

Gorffennaf 1 - Perfformio gyda nifer o artistiaid eraill mewn prosiect a noddir gan Gyngor y Celfyddydau yng Nghastell y Penrhyn.

Awst 6,7,9 - Pontio. Yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn bydd tri pherfformiad posibl gyda gBach yn ail gyflwyno'r sioe eithriadol o lwyddiannus a wnaed gyda nhw yn yr un lle yn 2016.

Cymeriadau'r Côr

Cyfes yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw'r Dr Mike Evans o adran yr ail denoriaid.

1. **Be' ydy dy enw llawn?** - Michael Evans.
2. **Oed?** - 67.
3. **Gwaith** - Meddyg teulu wedi ymddeol.
4. **Lle wyt ti'n byw?** - Dwi'n byw ym Mhenrhosgarnedd, Bangor.
5. **Un o le wyt ti'n wreiddiol?** - O Gaerfyrddin ac amryw o leoedd eraill.
6. **Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** - Penderfynol, amyneddgar a ffyddlon
7. **Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr** - Ers tair blynedd.
8. **Pa lais wyt ti?** - Dwi'n canu gydag adran yr ail denoriaid.
9. **Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** - Roeddwn i wedi bod yn aelod o gôr cymysg ac eisiau canu mewn côr meibion.
10. **Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** - Mae 'Tangnefeddwyr' gyda'r geiriau gan Waldo Williams a'r gerddoriaeth gan Eric Jones yn ddarn arbennig, oherwydd mae'n fy atgoffa i o nain a taid yn sôn am eistedd allan gyda'r hwyr ac yn gweld yr awyr yn goch uwchben Abertawe. Hefyd, dwi'n cofio gweld Waldo ar sawl achlysur pan oeddwn i'n blentyn oherwydd roedd o'n byw rhyw hanner milltir o'r ysgol yn Llandysilio.
11. **Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** - Bruce Springsteen.



12. **Beth ydy dy farn di am ganu pop?** - Rwy'n hoff iawn o fwsig 'Blues' a 'Roc'.
13. **Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** - Roedd cael canu yn y Gadeirlan Genedlaethol yn Washington DC yn brofiad i'w drysori ac yn rhywbeth bythgofiadwy.
14. **Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** - Rydw i'n mwynhau pysgota, garddio a mynd i'r gampfa i geisio cadw'n heini.
15. **Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** - Gan mai aelod gweddol newydd o'r côr ydw i mi hoffwn weld y côr yn mynd ar daith arall. Byddwn yn perfformio yn Beverley, ger Hull cyn hir ac rydw i'n edrych ymlaen at fynd yno. Mae perfformio o flaen cynulleidfaoedd gwahanol yn rhoi gwefr i ni fel aelodau ac yn sicrhau bod pobl o bell yn cael gwrandao ar raglen wahanol a chyffrous Côr Meibion y Penrhyn.



Collwyd yn y Rhyfel Mawr

Ganrif i fis hwn
ER COF
Am
HOWEL DAVIES
Milwr Cyffredin 266558
Byddin Frenhinol Ffiwsilwyr Cymreig
A fu farw
9 - 3 - 1917
Yn 25 oed

JOHNNIE WILLIAMS
L CORP. 2729
Middlesex Reg.
A fu farw
6 - 3 - 1917
Yn 22 oed

RAGLAW
JOHN SAVIN JONES-SAVIN
Corfflu Beiciwyr y Fyddin
A fu farw
27 - 3 - 1917
Yn 27 oed
(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i'r Llais)

MODURDY FFRYDLAS



Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas ☎ 01248 355336

Rhaglen Beti a'i Phobl

Yn ddiweddar roedd Beti George yn siarad â gŵr o'r enw Elwyn Williams, ond buan y sylweddolais mai John Elwyn ydoedd, brawd Eluned a aned ac a fagwyd am gyfnod yn Rhiwlas. Ei rieni oedd Trefor a Nancy Williams, ei dad o Lanllechid a'i fam o Rhiwlas, yn ferch i John Owen a Maggie Griffith, 6 Rhes Uchaf. Ei brif ddiddordeb yw mynydda a cherdded ac fe eglurodd sut y byddai'n gweld mynydd Moelyci o'i gartref ym Mro Rhiwen, ond Mynydd Bach ydyw i lawer ohonom yn y pentref a byddai'n mynd i Mynydd Bach i chwarae gyda'i ffrind, Geraint. Un o'r caneuon a ddewisodd oedd Steve Eaves yn canu am Moelyci. Mae'n debyg ei fod hefyd wedi bod yn cerdded y Carneddau efo aelodau o deulu ei dad a'r profiadau yma yn sicr wedi ei sbarduno i fynydda. Aeth i Brifysgol Caerdydd i astudio sŵleg a chael swydd yn Ysgol Tryfan yn dysgu Bywydeg ond gadawodd y byd addysg i weithio ym maes Hybu Iechyd. Wedi ymddeol yn gynnar, roedd mwy o amser i ddilyn ei ddiddordeb pennaf ac y mae wedi cerdded yn helaeth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae wedi gwneud y Munros i gyd, mynyddoedd sydd dros 3000 o droedfeddi o uchder ac mae'n debyg fod 282 ohonynt. Dipyn o gamp yn wir! Yn ystod y rhaglen hefyd eglurodd iddo ddiweddef o'r afiechyd polio ac mae'n gefnogwr brwd o'r elusen Water Aid gan y gall yr afiechyd gael ei drosglwyddo yn y dŵr. Rwy'n siŵr fod mwy o gerdded ar y gweill, ac efallai y cawn glywed sgwrs arall rhyw dro.

Merched y Wawr

Cyfarfod 14 Chwefror.
Croesawyd ni i'r cyfarfod gan
Helen, Llywydd y mis, a braf
oedd croesawu aelod newydd
atom, Mrs Jennifer Barnard.
Cawsom ein hatgoffa gan

Linda fod dyddiad sganio'r eitemau yn agosáu ac am i bopeth ddod i law erbyn y Sadwrn olaf yn Chwefror. Ein cynrychiolydd ar Bwyllgor Anabl y rhanbarth yw Annes ac eglurodd fod Distawrwydd Noddedig i fod eleni eto a phenderfynwyd cefnogi Canolfan Heneiddio'n Dda sydd i agor ar safle Cartref Bontnewydd yn ystod Hydref 2017. Age Cymru sydd yn gyfrifol am y cynllun ac mae canolfan yn bodoli eisoes ym Morfa Nefyn gyda chanmoliaeth i'r gwaith a wneir yno. Fe fydd y ganolfan ym Montnewydd yn gwasanaethu Arfon.

Ein gwraig wadd oedd Mrs Sonia Williams o Dregarth, ond a fu unwaith yn byw yn Rhiwlas a thestun ei sgwrs oedd Hyder mewn Lliwiau. Y mae'n gweithio fel cynrychiolydd i gwmni *Colour me Beautiful* ac eglurodd fod chwe lliw pendant ac fel mae'r gwallt yn britho a gwynnu, mae'n bwysig ein bod yn gwybod pa liwiau sy'n gweddu i ni. Roedd ganddi ddefnyddiau o bob lliw a chawsom gyfle i weld pa liw oedd yn addas i liw'r croen. Roedd un neu ddwy ohonom yn sicr yn gyndyn o fentro gwisgo lliw anghyfarwydd! Eglurwyd i ni hefyd bod lliw ein colur yn bwysig hefyd a daeth Einir ymlaen i gael gwedddnewid. Y mae Sonia'n ymweld â chymdeithasau fel Merched y Wawr, yn ymweld â chartrefi neu'n cynnal gweithdai i grwpiau o ferched. Diolchwyd iddi am noson ddiddorol a gobeithio y bydd gennym fwy o hyder mewn lliwiau. Helen oedd yn gyfrifol am y baned. Ym Mis Mawrth fe fyddwn yn ymweld â Storieli ym Mangor pryd y cawn ein tywys o amgylch yr Amgueddfa a chael paned a theisen.

Dymuno'n Dda

Llongyfarchiadau a phob
dymuniad da i Lliwen Jones,
Ty'n Gadlas, Pentir ar ei



Wu Shu Kwan®

Chinese Kickboxing

The Ultimate Art of Fitness & Self-Defence

E-bost: info@wushukwan.com Neges Destun: 07835 244398 Ffôn: 020 8749 8537

Gwefan: www.wushukwan.com

Gwebylfr: Wu Shu Kwan - Official

Trydar: @WuShuKwan



Croeso cynnes i bawb yn enwedig rhai di-brofiad
Am lwy o fanylion neu os am roi cynnig arni,
dewch draw i'r dosbarth yn

中国功夫身心并练

MAE EIN SYSTEM UNIGRYW O KUNG FU
TRADDODIADOL AM EICH HELPU GDYA:

- GWELLA FFITRWYDD
- COLLI PWYSAU
- EDRYCH YN DDA
- HUNAN HYDER
- CYRARFOD FFIRINDIAU NEWYDD
- TRECHU OFN
- RHEOLI STRAEN
- DWEUD HWYL-FAWR WRTH FWLIO
- GWIREDDU BREUDDWYD YM MYD Y CREFFTAU YMLED





NEUADD OGWEN

Stryd Fawr, Bethesda

CANOLFAN TREGARTH

Hen Stesion, Tregarth ger Bangor, Gwynedd, & Cymru
- Hyfforddwr -

Prif Hyfforddwr - **JAKE FITZPATRICK**

4ydd Gradd Gwregus Du

Is-hyfforddwr - **ELENA FITZPATRICK**

3ydd Gradd Gwregus Du

Y FFRDD HAWSA A'R MWYAF EFFEITHIOL I WELLA EICH:

Cryfder • Cyflymdra • Ystyrythder • Hyblygrwydd • Cydbwysedd • Cydlynad a Symudedd y Corff

DIM TALIADAU MISOL DRUD - Symudol: 07769 584646

phenodiad fel Pennaeth
dros dro yn Ysgol Tregarth a
Bodfeurig. Fe fydd yn dechrau
yn ei swydd newydd wedi
gwyliau'r Pasg. Y mae Lliwen
yn wyres i John Williams a
fagwyd ym Mro Rhiwen, yn fab
i Ffowc ac Alice Williams.

Clwb Rhiwen

Cyfarfod 8 Chwefror. Cawsom de a chrempog flasus iawn. Diolch i Ann am wneud y crempogau, mae'n un dda am dafu'r grempog a'i dal yn y badell hefyd! Ann a Frances oedd yn gyfrifol am y baned a Jean a enillodd y raffl.

Cyfarfod 22 Chwefror. Cawsom gwis diddorol iawn gan Jean, roeddem yn chwilio am eiriau cyswllt ac roedd yn rhaid meddwl yn galed am atebion i rai ohonynt, ond yn gwella wrth fynd ymlaen! Jean a Dilys oedd yn darparu'r baned.

Cais Cynllunio

Y mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cais i adeiladu tai yn y cae ar ôl Bro Rhiwen, ar y

chwith wrth fynd i fyny'r allt.
Mae'n gais llawn i godi 9 tŷ
fforddiadwy, creu mynedfa
newydd i gerbydau, lôn stad,
llecynnau parcio a darparu
llecyn chwarae. Mae mwy o
fanylion ar wefan y Cyngor/
ceisiadau cynllunio ac y mae
cyfle i fynegi barn hefyd.

Cydymdeimlo

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Elsie Richards, Bowler gynt a fu'n byw am flynyddoedd yn Rhiwlas, yn Rhos Becws i ddechrau ac yna ym Mro Rhiwen. Bu'r gwasanaeth yn y Gadeirlan ym Mangor ac yna'n dilyn ym Mynwent Pentir. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei merched Susan, Sharon a Julie a'u teuluoedd.

Cartref newydd

Croeso i David Rees ac Ela a Harri i'r pentref. Yn enedigol o Fethesda, mae wedi symud i 106 Cae Glas. Ein dymuniadau gorau i chi yn eich cartref newydd.

Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Dymuniad am sgôr rygbi (4)
- 4 Y rhai sy'n cyflawni 1 Ar Draws (5)
- 9 Dinas Gymreig, lle mae cofeb y cyfleichwyr (7)
- 10 Ymdrech ofer, ceisio rhoi cymaint a hyn mewn pot peint (5)
- 11 Y gwlanog bychain (3)
- 12 Gelyn diogi (9)
- 13 Bod ar gythlwg (6)
- 15 Caniatau yn anfoddog a theimlo poen (6)
- 18 "----- uchelderau'r nef Yr Arglwydd am ei waith" (emyn enwog Elfed) (9)
- 19 Yn perthyn i ni (3)
- 20 Dyma roir iddo am ei fod yn glaf o feddwl dryslyd (5)
- 21 Iaith leiafrifol Geltaidd (7)
- 23 Eitem efallai o'r "cwpwrdd cornel yn llawn o lestri te" (5)
- 24 Cuchio (4)

I LAWR

- 2 Y byd chwedlonol tanddaearol (5)
- 3 Brwdfrydeddf i werthu gwartheg (3)
- 4 Wrth hela, mae dilyn hwn yn gywir yn hanfodol (6)
- 5 Ein seren yn mynd i'w gwely (9)
- 6 Canwr (7)
- 7 Ysbyty newydd Eifonydd (6)
- 8 Carreg yn siarad.....carreg yn siarad (4)
- 12 Tŷ pwysica'r heddlu (9)
- 14 Dagreuol (7)
- 16 O'i gymysgu mae grefi'n fwy asidig ar eich bwyd (6)
- 17 Daeth yn fuddugol (6)
- 18 Pesgi, '--- bloneg' (4)
- 19 Ogwen yn troi a throsi ; mae pawb yn gwybod amdani (5)
- 22 Gwên --- ; un sy'n ffals (3)

	1	2		3		4		5		6		
7												8
9								10				
11				12								
13		14					15					16
						17						
18										19		
20						21		22				
		23						24				

ATEBION CROESAIR CHWEFROR 2017
AR DRAWS 1 Aber, 4 Cymar, 9 Ymaflyd, 10 Rodeo, 11 Fun, 12 Symffoniau, 13 Migwrn, 15 Hapnod, 18 Yn Eu Holau, 19 Cau, 20 Oriel, 21 Simsanu, 23 Nansi, 24 Clun
I LAWR 2 Blaen, 3 Rîl, 4 Codymu, 5 Morio Canu, 6 Rwdlian, 7 Llysfa, 8 Llo Du, 12 Sarn Helen, 14 Gwegian, 16 Deurudd, 17 Glesni, 18 Ynot, 19 Crafu, 22 Mic

Y gair barddonol am ferch neu gariad "bun" (wedi ei dreiglo) achosodd y drafferth fwyaf y tro hwn. 'Y fun o Eithinfynydd' meddai Dafydd ap Gwilym, ac 'yr oedd y fun mor brydferth' meddai Eifion Wyn. Cafwyd tri ohonoch yn cynnig 'fen' a dau arall yn cynnig 'fon'. Y ddau gamgymeriad arall oedd 'deulun' yn lle 'deurudd', a 'Mic' oedd y milgi cas yng ngherdd I D Hooson, nid 'Moc'.

Ond cafodd y canlynol yr atebion i gyd yn gywir. Llongyfarchiadau : Ellen Whitehouse, Birmingham; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Gwen Evans, Bethesda; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth; John a Meirwen Hughes, John Ffrancon Griffith, Abergele; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dilys A Pritchard-Jones, Abererch.

Yr ymgais gywir gyntaf o'r het i ennill y wobr oedd cynnig J R ac M A Jones, Awelon, Yr Ynys, Llanllechid, Gwynedd LL57 3ED. Go dda chi.

Atebion erbyn 7 Ebrill, 2017 i 'Croesair Mawrth'

Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1995-1996

- 1995
- 01-02/1995: Clwb newydd yn yr ardal – Clwb Nos Iau – wedi'i ffurfio ar gyfer genethod yn eu harddegau.
 - 18/05/1995: Dafydd Orwig yn cael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Cysgodol Sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd.
 - 21-27/08/1995: Wythnos Garnifál Tregarth.
 - Ailagor Neuadd Goffa Mynydd Llandegai gan Edward Oliver ar ôl y gwelliannau a wnaed iddi'n ddiweddar. Costiodd y gwelliannau i'r Neuadd £34,000 ond £300 oedd cost ei chodi yn 1931 (er i lawer o'r gwaith yr adeg honno gael ei wneud gan wirfoddolwyr).
 - 10/1995: Y Ganolfan Hamdden newydd wedi ei chodi (ac yn barod i agor) ar dir Ysgol Dyffryn Ogwen ac yn dilyn cystadleuaeth i blant ysgolion y cylch, penderfynwyd ar yr enw 'Plas Ffrancon'.
 - 10/1995: Codwyd 10 o dai tair llofft, gyda lle parcio pwrpasol (gan Gymdeithas Tai Gogledd Cymru) ar safle hen Neuadd yr Eglwys. Bwriedir eu gosod i bobl leol.
 - 10/1995: Gwelliannau'n cael eu gwneud i Neuadd Ogwen.
 - 30/12/1995: Hogia Llandegai yn cynnal eu cyngerdd olaf yn neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen, ar ôl dros 38 o flynyddoedd ac
- oddeutu 3000 o berfformiadau.
- Cyngor Arfon yn gweddnwied y Felin Fawr ac yn creu unedau i'w llogi i ddiwydiannau bychain.
- 1996
- 07/01/1996: Marw'r Parchedig Brifardd Emrys Edwards (Menai, Ffordd Campbell, Caernarfon), o Rachub yn wreiddiol.
 - 02/1996: AADW yn gwerthu Capel Tabernacl i Gwmni Tabernacl Bethesda Cyf., gyda'r bwriad o'i ddefnyddio fel Canolfan Gerddoriaeth.
 - 01/04/1996: Dafydd Orwig yn dechrau fel Cadeirydd Cyngor Sir newydd Gwynedd.
 - 19-24/08/1996: Wythnos Garnifál Mynydd Llandegai.
 - 19-24/08/1996: Wythnos Garnifál Tregarth.
 - 09/1996: Clwb Rygbi Bethesda yn cael grant o £148,000 (drwy gynllun grantiau chwaraeon y Loteri) i wella'r cyfleusterau yn Nôl Ddafydd.
 - 10/11/1996: Bu farw Dafydd Orwig. 14/11/1996: Cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa yng Nghapel Jerusalem, Bethesda.
- Nodyn: Dyma'r erthygl olaf yn y gyfres bresennol o edrych yn ôl dros y blynyddoedd ar rai digwyddiadau yn Nyffryn Ogwen.

Chwaraeon

- Canlyniadau Clwb Pêl-droed
Mynydd Llandygai
- 4 Chwefror: M.Llandygai 3.
Clwb P. Llanfairpwll 2
(Goliau: Liam Owen, Ben Owen
ac Alwyn Roberts)
- 11 Chwefror: Clwb P. Felinheli 3.
M. Llandygai 3
(Goliau: Liam Willingham ac
Alwyn Roberts 2)
- 25 Chwefror: M. Llandygai 0
Clwb P. Amlwch 4

gair neu ddau

John Pritchard

Tŷ DEL

Roedd o'n dŷ del. Dyna ddywedai pawb. Ac roedden nhw'n dweud y gwir. Roedd o'n ddel iawn. O bosibl fod y ffaith ei fod yn sefyll ar godiad tir yn rhoi'r argraff i bawb ei fod yn dŷ mwy nag ydoedd mewn gwirionedd. Ond anodd iawn fyddai gwella'i leoliad hwylus a chanolog. Roedd yr olygfa o'r ffenestri ffrynt yn arbennig iawn, ac ar ei gorau o bosibl ganol gaeaf. Heb os, roedd llawer yn genfigennus o'r bobl oedd yn byw ynddo, ac yn credu eu bod yn ffodus iawn i gael byw mewn tŷ mor ddelfrydol. Roedd o'n bictiwr. Un bai oedd iddo; ac nid y ffaith ei fod yn llai na'i olwg oedd hynny, ond y ffaith ei fod yn llai. Roedd yn damp: roedd bocsys cardfwrdd yn breuo mewn cypyrddau, dillad yn llwydo ar gefn drysau, a'r waliau'n wlyb. Ond roedd o'n dŷ del.

Nid yw'r tŷ hwnnw'n unigryw o bell ffordd. Mae'n bosibl fod pawb ohonom yn gwybod am dai tebyg sy'n edrych yn dda yn allanol ond yn wahanol iawn oddi mewn. Nid lleithder yw'r broblem bob tro, wrth gwrs. Ond beth bynnag y broblem, mae wastad yn siom pan fo tŷ sy'n edrych yn wych o'r tu allan heb fod hanner cystal oddi mewn.

Fwy nag unwaith, mae Iesu Grist yn rhybuddio pobl rhag y math hwn o beth. Ond nid am dai y byddai Iesu'n sôn ond am bobl. 'Gochelwch rhag gau broffwydi,' meddai, 'sy'n dod atoch yng ngwisg defaid, ond sydd o'u mewn yn fleiddiaid rheibus' (Mathew 7:15). Mae'r adnod hon wedi bod yn her i mi ers blynyddoedd gan ei bod yn sôn am arweinwyr eglwysig sy'n ymddangos yn un peth ond sydd mewn gwirionedd yn beth gwahanol iawn. Rwy'n gorfod fy holi fy hun yn barhaus yng ngoleuni'r hyn a ddywed Iesu.

'Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr,' meddai, 'oherwydd yr ydych yn glanhau'r tu allan i'r cwpan a'r ddysgl, ond y tu mewn y maent yn llawn trachwant a hunanfodddhad.' A 'Gwae chwi ... oherwydd yr ydych yn debyg i feddau wedi eu gwyngalchu, sydd o'r tu allan yn ymddangos yn hardd, ond y tu mewn y maent yn llawn o esgyrn y meirw a phob aflendid' (Mathew 23:25 a 27). Roedd Iesu'n drwm ei lach ar y rhagrithwyr hyn, a oedd yn rhoi'r argraff eu bod yn lân ac yn hardd ond a oedd mewn gwirionedd yn llawn drygioni o bob math yn eu meddyliau a'u bwriadau.

Nid bod pwyslais Iesu yn hyn o beth yn gwbl newydd. Ganrifoedd cyn hynny, roedd Samuel wedi dweud peth fel hyn; 'Yr hyn sydd yn y golwg a wêl meidrollyn, ond y mae'r Arglwydd yn gweld beth sydd yn galon' (1 Samuel 16:7).

Peidiwn ninnau â bodloni ar yr olwg allanol. Mynnwn yn hytrach, trwy ras Crist, fod yn bur a glan yn nyfnder y galon.

John Pritchard

Ysgol Llanllechid

Baban Bach
Llongyfarchiadau i Ms Elen Evans ar enedigaeth ei baban bach – Erin; chwaer fach i Cain ac Abner. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at gael ei chyfarfod yn fuan!

Ffarwel
Ffarweliwn a diolchwn i Ms Nerys Philips am ei gwaith fel cymhorthydd yn Ysgol Llanllechid. Dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol Ms Philips.

Machu Pichu
Ar ddydd Mercher, 15 Chwefror, cawsom y pleser o groesawu Mrs Menna Jones, nain Hari a Hana, at ddosbarth Mrs Nerys Tegid i sôn am ei hymweliad diweddar â'r safle anhygoel Machu Pichu ym Mheriw! Mae'n debyg i Machu Pichu gael ei adeiladu gan Pachacuti Inca Yupanqui, sef y nawfed ymerawdwr o lwyth yr Inca! Mae'r lleoliad, sydd 7,970troedfedd (2,430m), uwchben lefel y môr, ar ochor ddwyreiniol yr Andes, ac yn ôl Mrs Menna Jones, mae'n cael ei adnabod fel un o'r mannau archeolegol mwyaf enwog yn y byd i gyd! Roedd y plant wedi rhyfeddu at allu'r Incas i greu pentref mewn lleoliad mor bellennig ac anghysbell. Cafwyd cyfle i drafod hen, hen ffordd o fyw, ac ystyried bywyd ar y copaon uchel, wrth feddwl am "hen bethau anghofiedig teulu dyn". Diolch i chi Mrs Jones am ysbrydoli ein disgyblion! Dydi sgiliau athrawes dda byth yn mynd yn angof!!

Mordeithio
Cafwyd gwers Ddaearyddiaeth heb ei hail gan Mrs Gwen Hughes, wrth iddi sôn am y gwahanol fordeithiau y bu arnynt yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Soniodd Mrs Hughes am doreth o wahanol wledydd ar draws y byd, gan gynnwys Abu Dhabi a'r Burj Khalifa. Trafodwyd y pyramidiau a'r hieroglyffigs, cyn dysgu am ganol y Panama. Rhyfeddwyd Mrs Hughes at wybodaeth gyffredinol y disgyblion a'r cwestiynau treiddgar yr oeddynt wedi eu paratoi ar gyfer yr ymweliad. P'nawn diddorol, addysgiadol arall! Diolch yn fawr.

Dosbarth Derbyn
Doedd Morus y Gwynt ac Ifan y Glaw, heb sôn am ryw ffluwch o eira, ddim am darfu ar hwyl Dydd Mawrth Ynyd o wneud crempogau! Cafodd y plant i gyd gyfle i fesur a chymysgu'r cynhwysion yn dda ac yna gwylio Miss Rachel yn chwysu chwartiau uwchben y badell ffrio'n creu platiad ar blatiad o grempogau melyn euraidd i'r plantos eu claddu. Cafwyd gwledd go iawn!

Ymweliad ESTYN
Bu Mr Kevin Davies, arolygwr ESTYN, yn edrych ar arferion rhagorol yr ysgol yn y meysydd Ddaearyddiaeth a Hanes yn ddiweddar. Bydd yr arferion hyn yn cael eu rhannu gydag ysgolion ledled Cymru.

Taith y Llwybr Llechi
Mae Ysgol Llanllechid wedi



Y Senioritas o Sbaen yn werth eu gweld!

bod yn gysylltiedig â Llwybr Llechi Eryri, fydd yn agor ym mis Hydref 2017. Chwiliwch ar y we am fwy o wybodaeth! Cafodd dosbarth Mrs Marian Jones wahoddiad i fynd i Amgueddfa Llanberis i gymryd rhan mewn diwrnod o weithgareddau amrywiol a diddorol. Roedd hyn yn benllanw ar brosiect a wnaethpwyd ar hanes lleol, ac roedd yn braf cael ymuno â thair o ysgolion cynradd eraill y sir, - pob un o wahanol ardaloedd y llechi. Yr uchafbwynt i blant Llanllechid oedd cael perfformio sioe gerdd wreiddiol a oedd yn seiliedig ar hanes Côr Merched y Streic. Ac am sioe ydi hon! Diolch i Mrs Marian Jones am hyfforddi'r plant ac am y sgriptio gwreiddiol. Roedd y gynulleidfa wedi gwirioni ar ôl gweld y fath sioe, - rhai, hyd yn oed, yn eu dagrau! Da iawn eto, blantos!

Karate
Diolch i gwmni Shukokai a ddaeth i'r ysgol i roi blas i'r disgyblion o wersi Karate, fel rhan o'n darpariaeth ysgol iach. Diolch i Andy Plumb, Ffion Parry ac Emily Hall am eu cyfraniad.

Bingo Pasg
Cofiwch am ein Bingo Pasg yn y clwb Criced ar 5 Ebrill. Dewch yn llw!

Diwrnod Rhyngwladol
Ar 15 Chwefror cynhaliwyd Diwrnod Rhyngwladol wedi ei drefnu gan y Cyngor Ysgol. Diolch i'r Cyngor Ysgol am drefnu ac am helpu i godi £190 tuag at Ysgol Goffa Alec Jones yn Ghana, yn sgil ymweliad gan Mrs D Jones â'r ysgol yn ddiweddar.

Gŵyl Dewi
Cafwyd diwrnod llawn bwrllwm lle cafodd y disgyblion gyfleoedd i goginio bwydydd Cymreig e.e. cawl cennin, cacennau cri ac ati a dysgu am Dewi Sant. Ond, yr hyn fydd yn aros yn y cof am amser maith fydd perfformiadau grymus y disgyblion!

Athletwyr
Mae gan Ysgol Llanllechid atletwyr talentog! Cafwyd perfformiadau arbennig gan Ella, Leni – Ceirios, Efa, Tiah, Adam, Harrison, Jac, Leon, Ceirion a Gwion yng nghystadleuaeth athletau 'Sportshall UK' yng nghanolfan hamdden Arfon yn ddiweddar. Da iawn chi am gydweithio fel tîm a chystadlu'n frwdfrydig dros ben! Llwyddodd y tîm i gipio'r drydedd wobr – oedd yn gryn gamp! Ardderchog! Diolch Mr Stephen Jones am arwain y maes hwn i safon mor uchel.

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Cogydd o Fri
Fel y gwelwch o’r llun ar y dudalen flaen, mae gyrfa Hefin Roberts, mab Glynys a Derek Roberts, Pen Braich, Tregarth, yn mynd ag ef i lefydd difyr dros ben. Bu’n paratoi cinio Gŵyl Dewi i Theresa May, y Prif Weinidog ar 1 Mawrth eleni. Llongyfarchiadau mawr a phob hwyl iddo yn ei yrfa ddisglair fel cogydd. Mae Mam a Dad yn falch iawn ohono.

Profedigaeth
Daeth profedigaeth i ran Gerallt ac Andrea Williams a’r teulu, Ffordd Tanrhiw, pan fu farw tad Gerallt, sef Griffith Rees Williams, Gwernydd, Gerlan. Bu ei angladd yn Amlogsgfa Bangor ar 1 Mawrth ac anfonwn ein cydymdeimlad atoch chi i gyd fel teulu yn eich colled.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Edith Hughes, Erw Faen, a gollodd ei nith, Marilyn Parry o Rachub yn ystod Mis Chwefror. Roedd yn ferch i’r diweddar Mair a Gwilym Parry, yn briod â’r diweddar Ron a bu’n byw yn Nhregarth am rai blynyddoedd. Anfonwn ein cofion at y plant a’r teulu.

Daeth profedigaeth arall i ran Edith ar ddiwedd mis Chwefror pan fu farw ei brawd, sef John O. Roberts, (Jack Insurance) Bethesda.

Gwaeledd
Mae Mrs Ogwenna Doyle yn aros yng nghartref ei merch, Catrin a’r teulu ym Mhant Teg, Tregarth, ar hyn o bryd, gan nad yw ei hiechyd yn dda. Anfonwn ein cofion ati hi a’r teulu gan obeithio y daw gwellhad yn fuan.

Clwb 100 Canolfan Tregarth

Mis Ionawr

34 Olwen Jones	£15
51 Eleri Jones	£10
8 Margaret Jones	£5

Mis Chwefror

39 Anna Jones	£15
43 Peter Jones	£10
16 Gerallt Williams	£5

Diolch
Hoffem ddiolch i bawb am eu rhoddion caredig er cof am Mrs Elsie Lake, Tregarth a fu farw 16 Chwefror 2017. Casglwyd cyfanswm o £423 ac mae’r arian wedi’i rannu’n gyfartal rhwng yr elusennau

canlynol: RSPCA, Dogs Trust a chanolfan achub anifeiliaid Freshfields. Diolch i bawb hefyd am eu cymorth a’u cydymdeimlad yn ystod y cyfnod anodd a thrist hwn. Oddi wrth ei meibion Geoffrey, Desmond, Phillip ac Andrew, a Sylvia, ei merch-yng-nghyfraith.

Capel Shiloh
Cynhelir yr oedfaon am 5 o’r gloch oni nodir yn wahanol

Mawrth 19 Canon Idris Thomas, Dinorwig
Mawrth 26 Glyn Owen, Llanwnda
Ebrill 2 Philip Barnett
Ebrill 9 Dr Jennie Hurd
Ebrill 16 Cledwyn Williams, Bangor
Ebrill 23 Gwyndaf Jones, Bangor
Ebrill 13 Nos Iau, Gwasanaeth Cymun Undebol am 6 o’r gloch

Gwellhad
Gwellhad buan i un o’n haelodau sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd sef David Ellis Jones, Glan Gors. Cofion cynnes a brysiwch wella David.

Cydymdeimlo
Daeth ton o dristwch dros y pentref pan ddaeth y newyddion am farwolaeth sydyn un o flaenoriaid hynaf Shiloh sef John O Roberts, 10, Ffordd Pen y Bryn, Bethesda yn Ysbyty Gwynedd ar 25 Chwefror ac yntau’n 92 mlwydd oed. Bu Jack yn aelod ar hyd ei oes yn Shiloh ac am flynyddoedd bu’n flaenor ac yn bregethwr cynorthwyol cymeradwy iawn yn yr ardal ac mewn ardaloedd cyfagos. Collodd ei briod Marjorie rai blynyddoedd yn ôl a chydymdeimlwn â’i ferch, Wendy, a’i fab Michael, ei chwaer Mrs Edith Hughes, Erw Faen, a’r holl deulu yn eu galar. Bu ei angladd yn Shiloh ar 7 Mawrth ac yn dilyn yn yr Amlogsgfa ym Mangor.

Drws Agored yn Shiloh
Cofiwch, bawb, ei bod yn ddrws yn agored yn Shiloh bob bore Gwener o 10 o’r gloch hyd 12 o’r gloch. Trowch i mewn am sgwrs a phaned gyda chyfeillion. CROESO.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth
Daeth yn dymor dathlu unwaith eto a chafodd aelodau’r gangen gyfle i ddathlu Gŵyl Dewi mewn steil gyda phryd o fwyd ardderchog yng Ngholeg Menai ar gampws yr hen Ysgol Friars, a hynny ar 1 Mawrth. Croesawodd y llywydd, Margaret Jones, Cae Drain, bawb i’r wledd, ac roedd yn wledd gwerth chweil. Diolch i’r myfyrwyr a’r staff am fwyd penigamp ac am y gwasanaeth hynod o broffesiynol gan bawb a oedd yn gweini.

Cyfeiriodd Margaret at y brofedigaeth a ddaeth i ran Alwena Puw o golli ei brawd Gwilym yn Rhuddlan a chydymdeimlwyd

â hi a’r teulu. Anfonwyd cofion at bawb o’r aelodau oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd salwch. Diolchwyd i Angharad, Jane ac Andrea am drefnu’r noson yng Ngholeg Menai.

Atgoffwyd yr holl aelodau fod 2017 yn flwyddyn dathlu i Ferched y Wawr yn genedlaethol gan fod y Mudiad yn 50 oed eleni ers ei sefydlu ym mhentref y Parc, ger y Bala yn 1967.

Marathon Llundain fydd thema’r noson nesaf yng Nghanen Tregarth o Ferched y Wawr pan ddaw Ffiona a Donna i siarad am eu profiad yn rhedeg Marathon Llundain y llynedd. Croeso cynnes i bawb i Festri Capel Shiloh, Nos Lun, 3 Ebrill am 7.30 o’r gloch.

Tregarth
Eglwys y Santes Fair
Gwasanaethau
19 Mawrth Gwasanaeth Teulu
26 Mawrth Cymun Bendigaid
2 Ebrill Boreol Weddi
9 Ebrill Cymun Bendigaid – Sul y Blodau
16 Ebrill Cymun y Pasg
Pob Gwasanaeth am 9.30 yb

Ciniawau y Grawys
Bydd cinio ar gael yn ystod y Grawys ar y dyddiadau canlynol: Dydd Iau Mawrth 9, 16, 23 a 30. Croeso i unrhyw un alw i mewn rhwng 12.00-1.30 yp.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â theulu’r ddiweddar Elsie Lake, Bwthyn Felinhen. Buodd hi’n gefnogol iawn i Eglwys Gelli. Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlogsgfa Bangor ar 23 Chwefror dan ofalaeth y Parchedig John Matthews.

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Y Douglas Arms

* Te Cynhebrwng
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun – Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00
01248 600219
Gwefan: douglasarmsbethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

Ysgol Bodfeurig

Dathliadau!

Mae'r mis diwethaf wedi bod yn un o ddathlu yn yr ysgol! Dewch i glywed ein hanes...

Dydd Gŵyl Dewi

Bob blwyddyn, bydd plant Ysgol Bodfeurig yn mwynhau dathlu dydd Gŵyl Dewi. Eleni fe benderfynom symud ein dathliadau o'r ysgol i'r gymuned gan gynnal prynhawn arbennig o de Cymreig a chân yn y Neuadd Goffa ym Mynydd Llandegai. Gwahoddwyd rhieni ac aelodau o'r gymuned i ymuno â ni i ddathlu. Roedd y neuadd yn orlawn a phawb yn sicr wedi cael gwledd o ganu, dawnsio gwerin ac wrth gwrs bara brith a chacennau cri! Diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi - rydym yn ffodus iawn o'n ffrindiau yn Ysgol Bodfeurig. Ewch ar ein gwefan www.ysgolbodfeurig.org i weld mwy o luniau a fideos o'r cyngerdd!

Blwyddyn Newydd Tsieineaidd

Roedd yr ysgol yn llawn bwrlwm pan aethom ati i ddathlu Blwyddyn Newydd Tsieineaidd. Daeth pawb i'r ysgol mewn dillad coch neu ddillad Tsieineaidd cyn dysgu am hanes sut cafodd



Dathliadau Tsieineaidd



Dathlu Gŵyl Dewi

pob blwyddyn ei enwi ar ôl anifail. I ginio bu Anti Anwen ac Anti Dana yn brysur yn paratoi gwledd Tsieineaidd cyn gorffen y dathlu gyda gwasanaeth bendigedig gan ddefnyddio draig Tsieineaidd enfawr!

Parti Oriol Oren

Mae plant dosbarth Idwal

wrth eu boddau'n dysgu am Aled Afal a'i ffrindiau. Un o ffrindiau gorau Aled yw Oriol Oren a bu'r dosbarth yn brysur yn ddiweddar yn trefnu parti ar ei gyfer! Coginiodd y plant gacennau bach cyn eu haddurno'n lliwgar. Cafodd pawb o'r dosbarth wahoddiad i'r parti ble buont yn dawnsio i gerddoriaeth Cymraeg,

chwarae gemau parti ac wrth gwrs bwyta bwyd parti. Roedd pawb wrth eu boddau'n canu pen-blwydd hapus i Oriol Oren cyn chwythu'r canhwyllau ar ei gacen arbennig!

Brwsio Dannedd

Fel rhan o wythnos iechyd fe wahoddwyd nyrs dannedd i ddosbarth Idwal i'w dysgu am bwysigrwydd brwsio dannedd yn gywir ac am fwydydd iach a llai iach. Mae'r ysgol yn rhan o Gynllun Gwên ers blynnyddoedd bellach - golyga hyn fod plant y Cyfnod Sylfaen yn brwsio dannedd yn yr ysgol bob dydd. Diolch i Sarah am ddod acw i wneud yn siŵr bod pawb yn brwsio'u dannedd yn gywir!

Diogelwch ar y we

Mae diogelwch yn bwysig iawn i ni ym Modfeurig ac ar ôl buddsoddi llawer o arian mewn cyfres o Chromebooks newydd, mae'n hanfodol dysgu am sut i gadw'n ddiogel ar y we. Cyfle gwyhych i wneud hyn oedd 'Diwrnod defnyddio'r we yn ddiogel'. Cafodd pawb ddysgu gwersi pwysig yn ystod y dydd a byddent yn siŵr o gofio'r gwersi wrth weithio ar yr offer newydd!

Ysgol Abercaseg

Enillwyr Cystadleuaeth Poster

Llongyfarchiadau i'r pump a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth gwneud poster Grŵp Bysedd Gwyrdd. Bydd y posteri buddugol yn cael eu harddangos o amgylch yr ysgol er mwyn atgoffa pawb ei bod yn bwysig diffodd golau er mwyn arbed trydan ac arian.

Diolch i Tesco

Diolch o galon i Tesco Bethesda am drefnu raffi ar ran yr ysgol a chasglu swm hael iawn o arian.

Dydd Gŵyl Dewi

Gwisgodd pawb ddillad Cymreig i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi Sant. Bu'r dosbarthiadau'n dawnsio



Mwynhau'r dawnsio gwerin

gwerin, ysgrifennu cerddi a gwneud gwaith celf i gofio am eu Nawddsant.

Ymwelwyr o ysgolion eraill

Daeth athrawon o ysgolion ledled gogledd Cymru i'r ysgol i weld sut y mae plant yr ysgol yn gweithio'n annibynnol wrth gyflawni heriau yn ardaloedd y dosbarthiadau. Roedd yn braf

clywed y plant yn sgwrsio'n hyderus, a diolch i bob un ohonynt am weithio'n galed.

Diwrnod y Llyfr

Roedd hi'n lliwgar iawn yn yr ysgol wrth i'r plant ddathlu Diwrnod y Llyfr. Mwynhaodd pob un ddangos, trafod ac adolygu llyfrau amrywiol.

PC Meirion

Croesawyd PC Meirion unwaith eto, a diolch iddo am ddysgu'r plant ynglŷn â defnyddio moddion yn ddiogel.

Dona Direidi

Cafwyd syrpreis un bore Gwener wrth i Dona Direidi ddod i'r ysgol i agor Ffair Dreigiau Caseg gan ymweld â phob dosbarth yn ei dro.

Cafwyd hwyl yn gwrando arni'n darllen straeon, dawnsio a chanu ei chaneuon.

Ffair Dreigiau Caseg

Trefnodd Dreigiau Caseg ffair i ddathlu wythnos Gymreig. Bu'r Dreigiau'n brysur yn cynllunio gemau amrywiol ac yn trefnu gweithgareddau. Bu pob dosbarth yn mwynhau yn eu tro a diolch i holl blant Blwyddyn 2 am fod mor weithgar ac annwyl â phlant y dosbarthiadau eraill.

Brysiwch Wella

Hoffai holl staff yr ysgol ddymuno'n dda i Mrs Briggs sydd wedi anafu ei throed. Mae'n rhyfedd iawn hebddi ac mae pawb yn edrych ymlaen i'w chael yn ôl.

L. Sturrs

a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,

Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Ymgymmerwr adeiladu a

gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid

Bethesda

01248 601052

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda

600853

Apêl am Newyddion
Byddai dosbarthwyr y ‘Llais’ yn y pentref mor ddiolchgar petai pobl Talybont yn rhoi gwybod iddynt am ddigwyddiadau yr hoffent i ni eu cynnwys yn y papur bro. Mae croeso i chi adael eitemau o newyddion efo Jean Hughes, Bryn Awel, neu efo Barbara Jones, 1 Dolhelyg.

Diolch
Dymuna Ann a Dafydd Pritchard, a’r holl deulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl. Diolch i ffrindiau, cymdogion a pherthnasau am eu caredigrwydd a’u cefnogaeth, ac i’r Parchedig John Matthews, Canon Emlyn Williams a’r Barchedig Christina McCrea am arwain y gwasanaeth angladdol. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Hosbis Dewi Sant ac Ambiwlans Awyr Cymru, ac i John Turner am y trefniadau.

Ysbyty
Mae Mrs Rita Jones, 28 Cae Gwigin, yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Brysiwch wella, Rita!

Dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i Sandra, 13 Dolhelyg, a dreuliodd ychydig o ddyddiau yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Prawf Gyrru
Mae nifer o ieuenctid y fro wedi llwyddo yn eu Prawf Gyrru yn ddiweddar. Rydym yn eu llongyfarch yn gynnes iawn, ac yn dymuno blynyddoedd maith o yrru’n ddiogel iddynt.

Cartref Newydd
Croeso i Rachel, a’r plant, James, Zac ac Elizabeth, i 11 Dolhelyg. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd.

Eglwys St. Cross
Cynhaliwyd angladd Phyllis Davies ar 8 Chwefror yn Eglwys St. Cross.

Arweiniwyd y gwasanaeth gan ein Ficer, y Parchedig John Matthews, y Canon Emlyn Williams, Gaerwen, a’r Barchedig Christina McCrea, gyda Martin Brown yn cyfeilio ar yr organ.

Roedd yr Eglwys yn orlawn i dalu’r deyrnged olaf i Phyllis, a weithiodd yn ddiwyd am flynyddoedd i godi arian at gynnal yr adeilad.

Yn ôl dymuniad Phyllis ei hun, roedd y gwasanaeth yn ysgafn, y canu’n fywiog a’r teyrngedau’n ddoniol. Roedd y dyrfa lu a ddaeth i’w hangladd yn dyst i’w chymeriad annwyl. Claddwyd ei llwch gyda’i gŵr ym mynwent yr eglwys.

Capel Bethlehem
Oedfaon
Mawrth 19: Mr Dafydd Iwan; Mawrth 26: Gweinidog; Ebrill 2: Mr Richard Lloyd Jones;
Ebrill 9: Gweinidog; Ebrill 16: Parchg Harri Parri; Ebrill 23: Gweinidog.
Oedfaon am 2 o’r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Plaid Cymru - Cangen Dyffryn Ogwen

Bore Coffi
Er iddi fod yn fore digon gwlyb a drycinog ddiwedd Chwefror roedd y croeso yn gynnes yn ein bore coffi yng Nghanolfan Cefnfaes. Er yn bur araf deg ar y dechrau buan y llanwodd yr ystafell a phawb yn mwynhau sgwrs dros baned a bisged a phrynu ambell i gacen a jam. Roedd nifer dda o wobrau raffl, a’r un oedd yr hwyl ag arfer wrth i Neville fynd â’r bag Balchder Bro o amgylch i rai dynnu’r tocynnau buddugol er mwyn i’r enillwyr hawlio eu gwobrau, gydag ambell i “R’un rhai” a “fix” i’w clywed o ambell fan. Braf oedd gweld ein Haelod Seneddol, Hywel Williams yno efo’i deulu yn mwynhau’r cwmni hefyd. Bore braf y tu mewn er gwaethaf y tywydd tu allan.



Cyfarfod Blynyddol
Penderfynwyd eleni cynnal ein cyfarfod blynyddol yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda. Roedd rhan gyntaf y cyfarfod yn weddol ffurfiol gyda gwahanol adroddiadau ac ethol swyddogion, ac yna sgwrsio gydag aelodau newydd a chael trafodaeth a’u syniadau am ein dyfodol yn y dyffryn. Gwnaethpwyd hyn dros baned a chrempog gan ei bod yn ddydd Mawrth Ynyd. Diolch i Karen a Linda o’r caff am eu gwasanaeth a’r crempogau “blas mwy” bendigedig. Dyma’r swyddogion, croeso i chi gysylltu gydag unrhyw un o’n cynghorwyr.

Cadeirydd
Dafydd Meurig
Is-gadeirydd
Paul Rowlinson
Trysorydd/Ysgrifennydd Aelodaeth
Neville Hughes
Ysgrifennydd
Mary Jones maryeda@hotmail.co.uk
600274

Rydym yn cyfarfod ar nos Fawrth olaf y mis am 7:00 yng Nghanolfan Cefnfaes

SAMARIAID

Mac

Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng 7.00pm ac 11.00pm

Ysgol Pen-y-bryn

Techniquest

Cawsom sioe wyddonol ddiddorol iawn o'r enw 'Dirgelwch Deunyddiau' gan gyflwynwyr o Techniquest Glyndŵr Wrecsam. Roedd pawb wedi mwynhau cael cymryd rhan a dysgu am nodweddion defnyddiau mewn ffordd gyffrous ac ymarferol.

P'nawn agored

Ar 15 Chwefror, roedd hi'n amser i ni groesawu disgyblion blwyddyn 2 a'u rhieni yma atom am y prynhawn. Cafodd y plant a'u rhieni daith o amgylch yr ysgol a chael cyfarfod staff a phlant Ysgol Pen-y-bryn. Rhoddodd blant dosbarth Tryfan gyflwyniad arbennig o dda am Ysgol Pen-y-bryn fel bod y rhieni a'r plant newydd yn gwybod pa fath o waith rydym ni'n ei wneud yma a beth yw'r disgwyliadau. Edrychwn ymlaen at eich croesawu eto'n fuan!

Ffitrwydd

Cafodd plant blwyddyn 6 gyfle i brofi'u ffitrwydd pan ddaeth Lisa Campbell yma i gynnal sesiwn o weithgareddau corfforol. Da oedd gweld pawb wedi chwysu chwartiau ac wedi mwynhau'n arw!

Chwaraeon

Da iawn i bawb a fu'n cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth athletau Sportshall yr Urdd! Pawb wedi perfformio'n wych!

PC Meirion

Daeth PC Meirion Williams atom ni ar 10 Chwefror er mwyn rhoi cyflwyniad i bob dosbarth am gyffuriau ac alcohol. Gwrandawodd y plant yn arbennig o dda wrth iddynt ddysgu am effeithiau cyffuriau. Diolch PC Meirion am ddo i'r ysgol; welwn ni chi'r tymor nesaf.

Grŵp Gwyrdd

Bu Grŵp Gwyrdd yn brysur yn cwblhau tasgau sy'n seiliedig ar 'Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff'. Bu'r plant yn holi'r gogyddes am wastraff bwyd yn y gegin, yn edrych ar wahanol finiau gwastraff bwyd yr ysgol a chasglu syniadau ar sut i leihau'r gwastraff hyn. Mae'r prosiect yn parhau yn yr ysgol ac edrychwn ymlaen at weld y gwaith gorffenedig.

Mewn Cymeriad

Cafodd plant dosbarth Carnedd

sioe Mewn Cymeriad a oedd yn dangos sut oedd bywyd yn ystod y blits. Fe fwynhaodd y plant a chawson nhw gyfle i wisgo fel plentyn yn ystod y blits. Yn sicr, roedd y sioe yn fuddiol a rhoddodd fwy o ddealltwriaeth i'r plant am sut fywyd oedd gan bobl yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Drama newydd

Ar 28 Chwefror bu ieieproductions yma'n rhoi clyweliadau i rai o blant blwyddyn 5 a 6 ar gyfer drama newydd S4C. Braf oedd gweld bod y plant eisiau bod yn rhan o rywbeth mor gyffrous. Edrychwn ymlaen at weld pwy fydd sêr y rhaglen!

Cwmni'r Frân Wen

Fore Mawrth 28 Chwefror, daeth Cwmni'r Frân Wen i'r ysgol i berfformio Sigl-di-gwt i ddosbarthiadau Tryfan a Charnedd. Roedd yn

berfformiad a oedd yn gwneud i blant feddwl am sefyllfa sy'n mynd ymlaen yn y byd heddiw gan roi cyfle iddynt uniaethu â'r hyn oedd yn digwydd i'r cymeriadau.

Amgueddfa Lechi

Ar Ddydd Mercher 8 Chwefror aeth dosbarth Tryfan i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis i ddysgu am ddiwrnod golchi yn Oes Victoria. Roedd Anti Marged yn brysur iawn yn ei chartref yn golchi i bobl y pentref er mwyn cael arian i fwydo ei theulu - lwcus ein bod wedi mynd i'w helpu!! Cawsom y profiad o olchi'r dillad gyda doli yn y twb golchi, sgwrio'r dillad budr iawn yn y sinc ar y bwrdd sgwrio, ac yna rhoi'r dillad trwy'r mangl i wasgu dŵr allan ohonynt cyn eu rhoi ar y lein i sychu. Rydan ni i gyd yn cytuno bod merched yn arfer gweithio'n galed iawn ar ddiwrnod golchi yn Oes Victoria.



Y disgyblion ar eu hymweliad ag Amgueddfa Lechi, Llanberis



Y disgyblion mewn dillad o gyfnod y Blits

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda	01248 600045	Cludiant am ddim yn lleol	Mynytho	01758 730768
Caernarfon	01286 676070	Stoc helaeth ac amrywiol	Llanrwst	01492 640794
Llangefni	01248 751677	Croeso i gyfrifon masnachol	Siop yn Llanrwst	01492 640794
		Staff cyfeillgar a phroffesiynol		
		Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y		

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop yn Llanrwst

Ysgol Dyffryn Ogwen



Karen Owen a disgyblion Blwyddyn 12

Ymweliad Karen Owen

Ddydd Mawrth, 14 Chwefror, daeth y bardd Karen Owen i'r ysgol i roi blas i flwyddyn 12 ar y grefft o gynganeddu. Yn frodor o Ddyffryn Nantlle mae Karen bellach yn gweithio i Golwg360 ac yn fardd toreithiog iawn. Treuliodd y myfyrwyr fore difyr a hwyliog iawn yn ei chwmni hi. Gobeithio y bydd un ohonynt yn Brifardd Cenedlaethol yn y dyfodol. Diolch i Lenyddiaeth Cymru am sicrhau nawdd i gynnal y gweithdy.

Astudio'r Cerddi ym Mhrifysgol Bangor

Yn ystod yr hanner tymor, mynychodd rai o fyfyrwyr blwyddyn 12 ddiwrnod Astudio'r Cerddi ym Mhrifysgol Bangor. Cawsant flas ar fywyd myfyriwr wrth fynychu darlithoedd ar y cerddi maen nhw'n eu hastudio fel rhan o'u cwrs Uwch Gyfrannol. Diolch i Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor am drefnu'r diwrnod gwerthfawr.

Athletau dan do Gwynedd

Cafwyd diwrnod gwych yn athletau dan-do Gwynedd gyda nifer o fuddugoliaethau i'r ysgol a phawb wedi cael hwyl a gwneud eu gorau. Llongyfarchiadau i Beca Nia ar ei llwyddiant - Pencampwraig genethod dan 15. Hefyd, tîm genethod blwyddyn 7 ac 8 yn fuddugol, tîm genethod a thîm bechgyn blynyddoedd 9 a 10 yn 2il, a thîm bechgyn 7 ac 8 yn 3ydd. Bu i nifer ohonynt fynd ymlaen i dreialon tîm athletau dan-do Gwynedd a Môn yr wythnos ganlynol. Llongyfarchiadau mawr i Sophie Jeffreys,



Beca Nia

Ela Oliver, Natalie Owen, Jack Hughes a James Adl (blwyddyn 8) Beca Nia (blwyddyn 10) ar gael eu dewis i fynd ymlaen i bencampwriaethau athletau dan-do Cymru.

Gweithdy Cerdd yn Pontio

Bu disgyblion TGAU Cerddoriaeth yn mynychu gweithdy yn Pontio, Bangor ar ddydd Gwener, 10 Chwefror yn rhan o ddatiliadau Dydd Miwsig Cymru. Cawsant ddiwrnod llawn a diddorol yn cyfansoddi a pherfformio mewn arddull caneuon pop gydag Ifan Davies (o'r grŵp Swnami), Osian Williams (Candelas), ynghyd â'r perfformwyr amryddawn Gethin Griffiths ac Alys Williams.

Gwobrau Dewi Sant

Llongyfarchiadau i Elan Môn unwaith eto am gyrraedd rownd derfynol Gwobrau Dewi Sant a gyflwynir gan Brif Weinidog Cymru Mr Carwyn Jones. Cafodd Elan ei henwebu ar sail ei gwaith gwirfoddol yn hyfforddi pobl ifanc yn mynd chwaraeon.

Ymweliad Criw 6ed dosbarth

Bu criw o ddisgyblion chweched dosbarth ar ymweliad yn ddiweddar i labordai newydd Gwyddorau Chwaraeon ym Mhrifysgol Bangor yn profi eu ffitrwydd.

Llysgenhadon

Ar 17 Chwefror cafodd Sion Davies ac Efa Williams gyfle i gynrychioli Gwynedd fel llysgenhadon ifanc Aur, wrth gael y cyfle i fynd i Blas Tan y Bwlch i gynnal gweithdai ar gyfer llysgenhadon ifanc arian Gwynedd. Dechreuodd y diwrnod wrth gyfarfod yr athletwraig byd enwog Lowri Morgan a oedd yn rhannu ei phrofiadau hi o redeg ar draws yr Arctig a chwblhau un o'r rasys mwyaf heriol yn y byd sef rhedeg ar draws coedwig law yr Amazon. Wedi cael eu gwefreiddio gan hanesion Lowri, symudwyd ymlaen i ddysgu sut i sefydlu unrhyw fath o ddigwyddiad chwaraeon gyda Stephen Edwards, trefnydd Ras yr

Wyddfa ers blynyddoedd. Felly daeth y diwrnod a llawer o brofiadau gwahanol i bawb a gobeithio i bob un ddychwelyd i'w hysgolion yn llawn syniadau a brwdfrydedd.

Traws Gwlad

Bu pump o redwyr yr ysgol yn cynrychioli ysgolion Arfon ym mhencampwriaeth traws gwlad Eryri, a chafwyd perfformiadau gwych!

Ras bechgyn blwyddyn 7

Ioan Emptage - 9fed
Iestyn Marlow - 18fed
Gethin Jones - 21ain

Ras genethod blwyddyn 7

Gwenlli Sanderson - 15fed

Ras genethod blwyddyn 8 a 9

Boe Celyn - 7fed
Llongyfarchiadau i Ioan Emptage a Boe Celyn sydd wedi ennill lle yn nhîm Eryri ar gyfer pencampwriaeth Cymru yn Aberhonddu.

Pêl-droed

Dan 12 Friars 0 - 4 Ysgol Dyffryn Ogwen
Noa Hughes yn sgorio dwy gôl, Ioan Emptage a Dyfan Eames yn sgorio un yr un.

Tryfan 3 - 2 Ysgol Dyffryn Ogwen
Noa Hughes yn sgorio dwy gôl.

Dan 13 Tryfan 0 - 3 Ysgol Dyffryn Ogwen
Tomos Hughes yn sgorio dwy gôl a Cai Davies un.

Dan 15 Tryfan 1 - 2 Ysgol Dyffryn Ogwen
Caio Hughes a Dafydd Williams yn sgorio.
Friars 1 - 1 Ysgol Dyffryn Ogwen
Dafydd Williams yn sgorio.

Rygbi

Genethod dan 18

Bu tîm rygbi merched dan 18 yn Ysgol y Berwyn i gystadlu mewn twrnamaint. Cawsant 3 gêm gyda thri chanlyniad buddugoliaethus i ferched Dyffryn Ogwen yn ennill 10-5, 15-5 a 20-0. Da iawn nhw!



Tîm rygbi genethod dan 18 Ysgol Dyffryn Ogwen ac Ysgol y Berwyn